# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio 08/02/16

Annwyl Aelod,

**PWYLLGOR ARCHWILIO – 11 CHWEFROR, 2016**
**ADRODDIADAU HWYR**

Atodaf adroddiadau hwyr yng nghyswllt yr eitemau isod:-

**7A STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20 A CHYLLIDEB 2016/17** 1 - 28

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**7B TORIADAU I GYFARCH Y BWLCH ARIANNOL** 29 - 72

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

Yn gywir,

**Bethan Adams**
**<u>Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu</u>**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2016/17 A STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor-canol, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2016/17 i'r Cyngor llawn** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylid ei argymell ar gyfer 2016/17.

**2.** Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd–destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglyn â'r strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 2016/17 – 2019/20.

**3.** Mae hyn yn parhau gyda'r arferiad a fu gennym bellach ers rhai blynyddoedd - arferiad sydd wedi talu ar ei ganfed o ystyried y sefyllfa yr ydym wedi ei wynebu a chynllunio ar ei gyfer.

**4.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.

**5.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
**16 Chwefror 2016**

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Pwnc:** Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## Y Penderfyniad a geisir

Yn amodol ar drafodaeth ddilynol ar y toriadau, yn unol â'r strategaeth ariannol tymor-canol, argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £226,174,470 ar gyfer 2016/17, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £166,990,200 a £60,004,230 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.5% (neu gyfuniad addasedig o ffigyrau ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad ar y 'Toriadau').

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £22.141m yn 2016/17 a £12.286m yn 2017/18 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r atodiad.

3. Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i drefnu i ariannu swm addasedig o gronfeydd, fel bo angen, er mwyn amddiffyn penderfyniadau'r Cyngor ar y gyllideb a'r dreth pe bai newidiadau ymylol mewn grant Llywodraeth, yn dilyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru, fydd yn arwain at ddatgan setliad grant terfynol ar gyfer llywodraeth leol ar 2 Mawrth, a phleidlais yn y Cynulliad ar 9 Mawrth 2016 i'w gadarnhau.

---

## Cyflwyniad

1. Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn i ddod (2016/17) gan sicrhau fod y gwariant yn cyd-fynd a'i incwm.

2. Yn unol â'r drefn arferol, mae'r Cyngor wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

3. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i ni gan ein bod wedi medru cynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog / anghywir o ran y buddion i'r dinesydd.

4. Wedi ymgynghori mewn cyfres o weithdai i graffu'r toriadau posib yn Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio (11 Chwefror), mater i'r Cabinet yw ystyried y strategaeth ariannol 2016/17 – 2019/20, gan argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2016/17.

5. Mae'r atodiad sydd ynghlwm i'r adroddiad yma yn manylu ar yr holl faterion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2016/17 ynghyd a'r materion hynny sydd yn dylanwadu ar sefydlu strategaeth ar gyfer y dyfodol.

## A) CYLLIDEB 2016/17

6. Gellir crynhoi'r gyllideb a gynigir ar gyfer 2016/17 fel a ganlyn –

| | |
|---|---|
| Cynnydd Treth Cyngor % | 3.50% |
| Anghenion Gwario 2016/17 | £238,454,140 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | £166,990,200 |
| Llai incwm Treth Cyngor | £60,004,230 |
| Diffyg | £11,459,710 |
| Arbedion fydd wedi'u cyflawni | £6,424,500 |
| Y balans i'w gwrdd o Doriadau | 5,035,210 |

7. Erbyn 2016/17, mae asesiad o'n anghenion gwario sylfaenol yn awgrymu fod angen cynyddu ein gwariant i £238.5m er mwyn "sefyll yn llonydd".

8. Mae hyn yn cynnwys £1,284,000 i gwrdd â chostau trosglwyddiadau i mewn i'r setliad ynghyd â £1,174,810 i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau. Rhoddir manylion llawn o'r rhain yn rhan 3 o'r atodiad amgaeedig.

9. Bydd hefyd angen cyfarch anghenion un-tro cyfwerth â £820,740 i'w ariannu drwy adolygu cronfeydd penodol eto yn 2016.

10. Cofier fod prif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn, drwy'r Cynllun Strategol. Beth gyflwynir yma yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

11. O fewn y gyllideb a gynigir, rhagwelir y byddwn yn cydymffurfio ag addewid cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, ond maent yn wynebu pwysau ar eu cyllidebau dirprwyedig oherwydd cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol a phensiynau athrawon, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd cytunedig.

12. Bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru am 2016/17 yn lleihau 1.5% i £167m, sef gostyngiad sylweddol arall yn dilyn y lleihad 4% yn 2015/16 a'r lleihad 4.4% yn 2014/15.

13. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol y mae hyn yn ei greu yn 2016/17 bydd modd priodoli arbediad £2m o'r ysgolion, a galw ar £3m o arbedion effeithlonrwydd roedd eisoes ar y gweill, ynghyd â £2m o arbedion newydd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2016/17.

14. Argymhellir y dylid cyfarch gweddill y bwlch drwy gyfuniad o gynyddu'r Dreth Cyngor a thoriadau gwasanaeth wedi'u blaenoriaethu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, "Her Gwynedd".

15. Bydd adroddiad dilynol o dan yr un eitem ar raglen y cyfarfod hwn yn trafod rhinweddau codi'r Dreth Cyngor fwy na 3.5% erbyn 2016/17, er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau.

16. O fewn y gyllideb a gynigir, un risg yw'r ffaith na fydd unrhyw gyllideb wrth gefn cyffredinol. Bydd rhaid disgyn yn ôl ar falansau'r Cyngor os ceir anghenion gwario annisgwyl.

17. Yn dilyn cyflawni adolygiad trylwyr o'r Cynllun Rheoli Asedau, rydym wedi addasu rhaglen gyfalaf 2016/17 a sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2017/18, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 2, fydd yn golygu rhaglen o £22.14m yn 2016/17 a £12.29m yn 2017/18. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

## B) STRATEGAETH TYMOR CANOLIG

18. Adroddwyd yn Chwefror 2014 y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £50m dros y cyfnod 4 blynedd 2014/15 - 2017/18, a chynlluniwyd y strategaeth arbedion cyfredol.

19. Cyflwynwyd rhagolygon diwygiedig i gyfarfod 24 Tachwedd 2015 o'r Cabinet, gyda "senario ganolog" yn cynnwys cwtogiad mewn grant Llywodraeth o 2% erbyn 2016/17, roedd yn llawer llai pesimistaidd nac oedd yn gyffredin ar draws Gymru ar y pryd.

20. Casglwyd yn adroddiad Tachwedd "fod y tebygolrwydd o orfod gweithredu toriadau yn 2016/17 a 2017/18 **ddim** wedi newid yn sylweddol ers pryd cychwynnwyd y strategaeth toriadau cyfredol." Cadarnhaf fod hynny yn parhau i fod yn wir.

21. Ymhellach i doriad grant o 1.5% yn 'setliad' 2016/17 (ar sail setliad drafft Llywodraeth Cymru cyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2015), crynhoir y rhagolygon diwygiedig yn y tabl isod:

**CYLLIDEB 2016/17 i 2019/20**

| | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl Defnydd Balansau | 2,019 | | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,261 | 8,220 | 6,631 | 7,486 |
| Gostyngiad Grant Cyffredinol | 1,322 | 2,100 | 3,100 | 2,900 |
| Codi'r Dreth Cyngor | - 2,141 | - 2,220 | - 2,302 | - 2,387 |
| **Bwlch** | 11,461 | 8,100 | 7,429 | 7,999 |
| Arbedion Cyfredol | - 3,090 | - 3,947 | - 130 | - |
| Arbedion Ysgolion | - 2,095 | - 990 | - 263 | |
| Arbedion Ychwanegol | - 1,240 | - 2,692 | - 1,009 | - 2,315 |
| Y balans o'r bwlch = **Toriadau'r flwyddyn** | 5,036 | 471 | 6,027 | 5,684 |
| Toriadau'r flwyddyn ganlynol | 471 | | 5,684 | |
| **Toriadau'r 2 flynedd** (strategaeth 2 + 2) | **5,507** | | 11,711 | |

22. Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 blynedd. Yn anffodus, nid yw hynny'n ymarferol eleni, gan fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu setliad am un flwyddyn yn unig, heb unrhyw ffigyrau mynegol am flynyddoedd dilynol.

23. Felly, mae'n synhwyrol i gyflawni'r cynllun ymateb cyfredol am y ddwy flynedd nesaf, cyn adnabod y bwlch pellach i'w ariannu erbyn 2018/19 a 2019/20. Erbyn hynny, gobeithir bydd llywodraeth ganolog yn ariannu rhan o'r pwysau ar wasanaethau awdurdodau lleol, megis yr isafswm cyflog byw. Hefyd, gall y cynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol fod yn fwy eglur a chodi cyfleon am arbedion cynnar cyn 2020. Bydd y gymuned llywodraeth leol, gan gynnwys y Pennaeth Cyllid fel Cadeirydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru, yn ymgyrchu am setliadau pedair blynedd i'r dyfodol ar ôl etholiad Mai 2016.

24. Yn y cyfamser, argymhellir y dylid parhau i weithredu ar sail yr un amrediad o bosibiliadau a gytunwyd eisoes am 2016/17 – 2017/18, sef:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor o fewn amrediad 3.5% - 5% |
| Y Gyllideb Ysgolion | Parhau i weithredu'r targed £4.3m o'r gyllideb ysgolion |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Gweithredu fel bydd angen er mwyn arbed y balans fydd ar ôl |

25. Mae'r strategaeth i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd eisoes ar droed gyda £26m o gynlluniau wedi'u cymeradwyo, neu wedi'u gweithredu ers 2014/15, ac eraill gwerth £7m dan sylw pellach.

26. Mae'r strategaeth 'Her Gwynedd' i flaenoriaethu toriadau hefyd wedi symud ymlaen, gyda rhaglen gynhwysol yn sefydlu blaenoriaethau er mwyn ceisio sicrhau bydd y toriadau anochel yn adlewyrchu blaenoriaethau trigolion Gwynedd. Bydd hyn yn destun yr adroddiad dilynol ar raglen y cyfarfod yma.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

27. Mae'r holl strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd a chadw'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i'r lleiafswm fyddai'n gyson gyda'r amcan hwnnw.

28. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod unrhyw arbedion y bydd yn rhaid i ni eu cyflawni yn cael eu gweithredu yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

**Ystyriaethau perthnasol**

29. Fel y nodir uchod, mae modd codi llai neu fwy o Dreth Cyngor, fydd yn effeithio ar lefel y toriadau y bydd eu hangen dros y cyfnod.

30. Mater i'r Cyngor yw ystyried y gyllideb i'w osod yn 2016/17 ar sail y materion a nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm, ac ystyried a ydynt yn dymuno newid unrhyw elfen.

31. Bu proses gynhwysol yn ymgynghori gyda'r cyhoedd a gyda thrwch aelodau'r Cyngor. Bydd yr adroddiad arall ar raglen y cyfarfod hwn yn nodi canlyniadau'r broses, er mwyn i'r Cabinet ystyried barn aelodau am yr opsiynau cyn gwneud argymhellion o ran y gyllideb i'r Cyngor. Mater i'r Cyngor fydd mabwysiadu'r gyllideb honno neu beidio.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Prif Weithredwr:**
Yn amlwg, mae angen darllen yr adroddiad hwn gyda'r adroddiad ar wahân i'r cyfarfod hwn ar Her Gwynedd. Fodd bynnag, yr hyn a wna'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yw gosod sylfaen gyllidol gadarn fel y gall y Cabinet ystyried y dewisiadau torri a threthi y mae am roi sylw iddynt cyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. Fel y dywed yr adroddiad, mae'r cynllunio ariannol tymor hwy darbodus y mae'r Cyngor wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf yn gosod y Cyngor mewn lle da i wneud penderfyniadau gwybodus am y materion hyn.

**Swyddog Monitro:**
Mater i'r Cyngor yw penderfynu yn derfynol ar y gyllideb ond mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddynt. Mae'r amserlen datgan setliad grant terfynol gan y Llywodraeth yn golygu fod haflaid y gyllideb yn seiliedig ar amcangyfrifon. Gellir defnyddio ffigyrau amcangyfrifol i osod y gyllideb ond mae gofyn fod yr elfen risg sydd yn ynghlwm a hyn ar cyfyngiadau o amgylch adolygu Treth y Cyngor yn cael eu hystyried a bod trefniadau ar gyfer cyfarch y risg mewn lle. Mae'r adroddiad yn cyfarch hyn yn yr argymhellion.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**
Adroddiad Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 i'r Cyngor llawn

**CYLLIDEB 2016/17 a**
**STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20**

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae'r atodiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2016/17.

1.2 Hefyd, mae'n diweddaru'r strategaeth ariannol tymor canolig sefydlwyd y llynedd a'i ymestyn ar gyfer y cyfnod hyd at 2019/20 yn wyneb parhad yr hinsawdd ariannol galed.

## 2 GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad drafft ar gyfer 2016/17, ond heb ddarparu unrhyw ffigyrau mynegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodir y manylion isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1**
**Grant Cynnal Refeniw 2015/16 – 2016/17**

| | | Cyfanswm Awdurdodau Cymru £'000 | Cyngor Gwynedd £'000 |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2015/16 (heb addasu) | | 4,124,709 | 168,312 |
| Grant y Llywodraeth 2015/16 (wedi addasu) | | 4,155,809 | 169,596 |
| Grant y Llywodraeth 2016/17 | | 4,099,052 | 166,990 |
| | Lleihad £ | 56,757 | 2,606 |
| | Lleihad % | 1.4% | 1.5% |

2.2 Fe welir o'r tabl uchod fod Cyngor Gwynedd yn wynebu colled grant o £2.6m yn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2015/16 i adlewyrchu'r trosglwyddiad o £1,284k i mewn i'r setliad) sy'n ostyngiad o 1.5%, gyda chyfartaledd y gostyngiad ar draws Cymru yn 1.4% (mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla, megis y nifer disgyblion, nifer hawlwyr cymorth incwm, ayb).

3 **GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2016/17**

3.1 Nodir isod yn Nhabl 2 y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2016/17.

**Tabl 2**
**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Cyllideb Sylfaenol 2015/16** | | **226,174** |
| Yswiriant Gwladol | 2,629 | |
| Chwyddiant Cyflogau | 2,222 | |
| Chwyddiant arall | 1,936 | |
| Incrementau / Trosiant | -83 | |
| Pensiynau Athrawon | 391 | |
| Demograffi | -192 | |
| Costau Benthyca | -143 | |
| Llog ar falansau | 59 | |
| Amrywiol | 493 | |
| Addasu cyllidebau incwm Gwasanaethau | 490 | |
| Trosglwyddiad i'r setliad | 1,284 | |
| Pwysau ar wasanaethau | 1,175 | |
| **Cyfanswm net yr ychwanegiad** | | **10,261** |
| Defnydd Balansau yn 2015/16 | | 2,019 |
| **Cyfanswm gofynion gwario 2016/17 cyn arbedion** | | **238,454** |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2015/16** - Er mai £226m yw gwariant net 2015/16, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £367m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £85m ac yn codi bron i £56m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Yswiriant Gwladol £2.63m** – O Ebrill 2016, bydd cynnydd sylweddol mewn cyfraniadau yswiriant gwladol ("NI") ar gyfer holl staff y Cyngor.

3.4 **Chwyddiant Cyflogau £2.22m** – Er nad yw cynnig y cyflogwr wedi'i dderbyn gan yr undebau, darperir ar gyfer cynnydd tâl 1% i staff y Cyngor, gyda % mwy i rai staff ar raddfeydd isaf.

3.5 **Chwyddiant arall £1.94m** – Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith yr isafswm tâl ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat, llai chwyddiant negyddol ar ynni / tanwydd.

3.6 **Incrementau / Trosiant (£83k)** – Swm 'net' sy'n adlewyrchu lefel trosiant uwch na gwerth incrementau tâl (holl staff y Cyngor).

3.7 **Pensiynau Athrawon £391k** – Effaith 5 mis o'r cynnydd mewn cyfraniadau cynllun pensiwn athrawon sy'n weithredol ers Medi 2015.

3.8 **Demograffi (£192k)** – Swm 'net' sy'n adlewyrchu -£403k oherwydd lleihad mewn nifer disgyblion yn yr Ysgolion, -£53k oherwydd lleihad mewn nifer achosion yn y Gwasanaeth Plant, +£265k oherwydd cynnydd mewn pobl sy'n derbyn gofal gan yr Adran Oedolion.

3.9 **Costau Benthyca (£143k)** – Bydd lleihad mewn cost benthyca, ar ddiwedd cyfnod rhai hen fenthyciadau. Ar hyn o bryd, ni fwriedir benthyca ychwanegol (gweler yr adroddiad Rheolaeth Trysorlys).

3.10 **Llog ar Falansau £59k** – Rhagamcan o gynnydd ymylol iawn mewn cyfradd llog cyn diwedd 2016/17.

3.11 **Amrywiol £493k –** Swm 'net' sy'n adlewyrchu nifer o fân addasiadau mewn praeseptau a darpariaethau ar draws y Cyngor.

3.12 **Addasu Cyllidebau Incwm Gwasanaethau £490k –** Swm 'net' wedi addasu targed incwm gwasanaethau, yn cynnwys -£280k Ymgynghoriaeth a -£275k Priffyrdd oherwydd trosglwyddiad staff i'r Asiantaeth Cefnffyrdd, a +£110k Rheoleiddio i adlewyrchu cynnydd mewn incwm parcio, ayb.

3.13 **Trosglwyddiad i'r setliad £1,284k** – Grant penodol 'Cytundeb Canlyniadau' yn trosglwyddo i'r setliad, ynghyd ag ymrwymiadau gwariant perthnasol.

3.14 **Pwysau ar Wasanaethau £1,175k –** 'Bidiau' anorfod – gweler **Atodiad 1** am fanylion pob 'bid' unigol.

**Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £1,174,810 gan adrannau'r Cyngor am adnoddau ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.**

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. ***Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.***

**Rhoddir manylion yr hyn a argymhellir yn Atodiad 1.**

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau a ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau (ar ben y gostyngiad yn ein grant).

Mae'r eitemau yma wedi cael eu herio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet Adnoddau cyn eu hargymell a'u cymeradwyo gan y Cabinet.

Hefyd yn Atodiad 1, crybwyllir fod angen cymeradwyo "bidiau" gwerth £820,740 ar sail un-tro er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Gellir ariannu hwn trwy adolygu cronfeydd penodol eto yn 2016.

3.15 Cofier fod prif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn, drwy'r Cynllun Strategol. Beth gyflwynir yma yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

3.16 **Defnydd Balansau yn 2015/16** – Defnyddiwyd £2m o Falansau i 'bontio' un-tro ac osgoi torri cyllidebau yn 2015/16, sydd i'w wynebu rwan ac felly i'w ychwanegu at fwlch 2016/17.

## 4 YSGOLION

4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi gwarchod grant Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau gostyngiad llai na gweddill y gwasanaethau yng nghyllidebau ysgolion. Y rhagdybiaeth yw mae'n debyg y byddem wedi gweld gostyngiad uwch na'r -1.5% pe na fyddent wedi rhoi'r warchodaeth yma i ni.

4.2 Ein agwedd ni tuag at hyn yw parhau i gynllunio ar sail yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud ar gyfer ysgolion, gan fesur hynny wedyn yn erbyn bwriad Llywodraeth Cymru ac ystyried a oes angen addasu unrhyw beth er mwyn cydymffurfio a'r addewid.

4.3 Mae "addewid" cyllido Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn derbyn cynnydd yn eu cyllideb sydd 1% yn fwy na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi ei dderbyn. Mae'r rheol yma yn golygu fod angen sicrhau fod ysgolion yn cael cynnydd arian o +1.85%, sef £1.32m erbyn 2016/17.

4.4 Yr hyn sy'n cymhlethu pethau yw bod ysgolion am dderbyn cynnydd £1,188,600 ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol, cynnydd £388,000 am gyfraniadau pensiwn uwch i athrawon, fydd yn cyfrif tuag at y cynnydd o 1.8%, ynghyd â chwyddiant o £704,180 fydd, ymysg materion eraill fel cyfraniadau refeniw £1.3m tuag at gostau adeiladu ysgolion y 21ain Ganrif / costau cyfalaf ar ysgolion sy'n berthnasol i 'drefniadaeth', yn fwy na bodloni'r "addewid".

4.5 Felly, bydd modd sicrhau £2,095,000 o arbedion o'r gyllideb ysgolion yn 2016/17 a chadw o fewn cyfyngiadau'r "addewid".

4.6 Cofier hefyd bydd y gyllideb ysgolion yn wynebu'r addasiadau arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion, gyda rhai ysgolion yn elwa ac eraill yn colli, ynghyd â lleihad sylweddol mewn grantiau a roddir yn uniongyrchol i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru (-5% yn y Grant Gwella Addysg).

4.7 Yng nghyswllt y Strategaeth Ariannol a'r targed arbedion ar gyfer ysgolion, ddaru'r Cabinet 07/10/2014 benderfynu:

> "Gosod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf, gan ofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith drwy gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targed hwnnw."

Mae'r Fforwm Cyllido Ysgolion, sy'n cynnwys penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion, wedi cyflawni'r gwaith hwnnw gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Aelod Cabinet Adnoddau.

4.8 Penderfynwyd eisoes i broffilio'r arbedion £4.3m i'w weithredu - £952k yn 2015/16, £2,095k yn 2016/17, £990k yn 2017/18, a £263k (trefniadaeth) yn 2018/19.

4.9 Ymhellach, mewn cyfarfod o'r Fforwm ar ddydd Mercher, 18 Tachwedd 2015, penderfynwyd cyfleu i Gabinet y Cyngor bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cymeradwyo gweithredu'r gweddill targed arbedion o £3,348,000 fel a ganlyn drwy:

(i) gadarnhau'r cynlluniau (materion penodol) cytunedig gan y Gweithgor Cyllid Addysg yn y swm o £1,028,000;
(ii) rannu gweddill y targed arbedion o £2,320,000 yn unol ag opsiwn toriad B (£1,642,151 – sector cynradd, a £680,363 – sector uwchradd) yn ddarostynedig i'r amod o gadw'r cyfanswm arbedion o £4.3m yn sefydlog am y 3 blynedd hyd at 2018; a
(iii) bydd unrhyw arbedion trefniadaeth ysgolion pellach yn cyfrannu at ddiwallu targed arbedion ysgolion ar ôl 2018.

Yn y cyfarfod, nodwyd gwerthfawrogiad o'r cyfaddawd o du'r ysgolion, a cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Addysg y bydd ef yn pwyso ar y Cabinet i gymeradwyo ail-gylchu'r arian yn deillio o unrhyw drefniadaeth ysgolion pellach i leddfu toriadau pellach ysgolion yn 2018/19.

## 5 CRYNODEB O SEFYLLFA 2016/17

5.1 Fe welir o'r uchod felly fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2016/17 yn £238.5m (cynnydd anorfod o 5.4%) a byddwn yn derbyn grant o £167m oddi wrth Lywodraeth Cymru (gostyngiad o 1.6%).

5.2 Ers ein rhagdybiaethau am 2016/17 yn Chwefror 2015, mae ein ffigyrau wedi'u haddasu am setliad mwy ffafriol na ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru (£2m), sydd wedi'i wrthbwyso i raddau gan ofynion gwario uwch, yr isafswm cyflog byw yn bennaf, a ffactorau eraill (£1m).

5.3 Gyda chynnydd 3.5%, disgwylir i'r incwm o'r Dreth Cyngor fod yn £60m, felly rydym yn wynebu diffyg o £11.5m yn 2016/17.

## 6 DYGYMOD GYDA'R BWLCH YN 2016/17

6.1 Yn ei strategaeth tymor-canolig ym Mawrth 2015, mae'r Cyngor wedi prynu'r amser angenrheidiol i ni lunio rhaglen o arbedion a thoriadau ystyrlon a synhwyrol i'w gweithredu mor fuan â phosibl.

6.2 Roedd cyllideb 2015/16 yn cynnwys defnyddio £2m o falansau cyffredinol y Cyngor un-tro er mwyn pontio a chaniatau amser i flaenoriaethu yn gynhwysol.

6.3 Ers hynny, bu cynnydd boddhaol gyda'r rhaglen arbedion effeithiolrwydd, sydd yn golygu bydd modd galw ar arbedion o £3m sydd eisoes ar y gweill er mwyn cyfarch y bwlch ariannol.

6.4 Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd yna arbedion effeithlonrwydd pellach ar gael yn 2016/17 gwerth £1m, ynghyd â'r arbediad £2m ysgolion.

6.5 O gyfrifo'r holl faterion uchod felly, bydd arbedion yn cyfarch £6.4m o'r bwlch £11.5m sy'n codi yn 2016/17, gan adael £5m ar ôl i'w ddarganfod pe bawn yn cynyddu'r Dreth Cyngor 3.5% (cyfanswm £5.5m gyda bwlch tebygol 2017/18).

## 7 Y DRETH GYNGOR

7.1 Yn wyneb y bwlch yma, y penderfyniad allweddol sydd angen ei wneud yn sgil yr ystyriaethau uchod yw sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor i'w argymell i'r Cyngor ar gyfer 2016/17.

7.2 Yn y tybiaethau a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, ar sail y cynnydd cyfartalog yng Nghymru, ac ymddengys bydd y cynnydd cyfartalog o gwmpas y ffigwr hwnnw (3.5%) erbyn 2016/17.

7.3 Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

7.4 Bydd yr adroddiad 'Toriadau' ar raglen y cyfarfod hwn yn trafod rhinweddau codi'r dreth fwy na 3.5% erbyn 2016/17 er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau. Byddai cynnydd 3.5% yn cynhyrchu £2.14m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch, a bydda'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £40.64 i eiddo mewn Band D, neu 78c yr wythnos (byddai'r dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs).

7.5 Mae dros 18% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 61% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D.

7.6 Byddai pob 0.1% uwchben, neu o dan 3.5% yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £57,975. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol £289,875 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o £579,750.

7.7 Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru ers 2008/09:

| Blwyddyn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm 2008-16** | **33.1%** | **29.5%** |
| 2015/16 | 4.5% | 4.3% |
| 2014/15 | 3.9% | 4.2% |
| 2013/14 | 3.5% | 3.1% |
| 2012/13 | 3.5% | 1.9% |
| 2011/12 | 3.9% | 3.1% |
| 2010/11 | 3.9% | 3.7% |
| 2009/10 | 3.9% | 3.9% |
| 2008/09 | 3.8% | 3.7% |

7.8 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2016/17, ond y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 3.5%.

7.9 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol.

7.10 Byddai cynyddu lefel Treth Cyngor 3.5% yn gadael bwlch o £5m ar ôl i'w ddarganfod yn 2016/17 (£5.5m dros 2016/17 – 2017/18). Yr unig ffordd o'i ddarganfod fydd cael mwy o arbedion, a gan fod y Cyngor eisoes am uchafu'r arbedion o effeithlonrwydd, bydd raid darganfod y balans yma o dorri cyllidebau gwasanaethau yn 2016/17.

7.11 Ni fydd yr holl arbedion yma ar gael ar 1 Ebrill 2016. Felly, bydd raid sicrhau adnoddau un-tro i bontio'r cyfnod hyd nes y bydd modd gweithredu toriadau. Bwriedir sicrhau'r adnodd un-tro yma o adolygu cronfeydd penodol erbyn Gorffennaf 2016.

7.12 Byddai cyfarch y bwlch yn gyfan gwbl drwy'r Dreth Cyngor (heb doriadau) yn golygu cynnydd tua 12%, sydd yn amlwg uwchben hicyn rhesymol.

7.13 **Felly, fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth yn y papur 'Toriadau' dilynol, argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 3.5%, fyddai'n gynnydd wythnosol o 78c, neu £40 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,201.71 am 2016/17, ynghyd â £5m o doriadau (h.y. £5.5m o doriadau o gymryd 2017/18 gyda 2016/17).**

7.14 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo gwag hir-dymor (Adran 12A) ac ail gartrefi (Adran 12B). Y cynharaf y gellir codi'r premiwm yma yw o flwyddyn ariannol 2017/18 ymlaen. Daeth y Gorchymyn Cychwyn ar gyfer y rhan yma'r Ddeddf i rym ar 16 Rhagfyr 2015. Rhaid i'r Cyngor wneud ei benderfyniad cyntaf i godi "premiwm ail gartrefi" Adran 12B o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Felly, pe bai'r Cyngor am godi premiwm ar ail gartrefi o 2017/18 ymlaen, byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad – brysiog, ac o bosib heb fod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael – yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016. Nid yw'r cymal "rhybudd blwyddyn" yn berthnasol i eiddo gwag hir-dymor (h.y. Adran 12A), ond wrth gyfrifo y cyfnod blwyddyn gwag yma, ni ellir ystyried cyfnod cyn i'r cymal ddod i rym, sef 1 Ebrill 2016.

7.15 Heb amheuaeth, gallai'r potensial i godi premiwm o 100% ar y eiddo hyn ddenu incwm ychwanegol sylweddol i'r Cyngor. Ar 31 Rhagfyr 2015, roedd 1,100 cartref yng Ngwynedd oedd wedi bod yn wag ers 12 mis neu fwy, a 4,815 o ail gartrefi yn talu Treth Cyngor ac a fyddai'n gymwys i dalu'r premiwm.

7.16 Fodd bynnag, rhaid bod yn ymwybodol y bydd nifer o'r eiddo yma yn destun ymdrechion i osgoi talu'r dreth ychwanegol, ac mae "eithriadau" yn y Rheoliadau lle na ellir codi premiwm. Mae Canllawiau Statudol sydd wedi eu cyhoeddi hefyd yn annog y Cyngor i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud ei benderfyniad cyntaf os am gyflwyno'r premiwm neu beidio.

7.17 Mae Ymchwiliad Craffu ar hyn o bryd yn edrych i mewn i'r tuedd o eiddo yn trosglwyddo o'r drefn Treth Cyngor i fod yn "unedau hunan-gynhaliol" (i'w gosod am wyliau) sydd yn talu trethi busnes. Gall y tuedd yma gyflymu petai'r premiwm yn cael ei gyflwyno. Felly, rwyf yn argymell disgwyl am flwyddyn a peidio cyflwyno'r premiwm ar ail gartrefi yng Ngwynedd yn 2017/18, er mwyn cael cyfle i roi ystyriaeth pwyllog i ganlyniad yr Ymchwiliad Craffu, er mwyn cynnal ymgynghoriad ystyrlon a manwl gyda'r rhai a effeithir (gan gynnwys y trethdalwyr lleol), ac i ganiatáu gwaith dadansoddiad sensitifrwydd fanwl er mwyn ymchwilio i wir ganlyniad ariannol cyflwyno'r premiwm – a'i lefel - ar incwm y Cyngor.

## 8 BALANSAU

8.1 Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £4.4m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.4% o wariant refeniw gros y Cyngor.

8.2 'Rydym wedi nodi ar fwy nag un achlysur oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.

8.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma. Yn wir, yn absenoldeb unrhyw ddatganiad gan Llywodraeth Cymru am y setliad grant ar gyfer llywodraeth leol i'r dyfodol, mae'r risg wedi cynyddu. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol yn fwy perthnasol.

8.4 Wedi defnyddio £2m o'r balansau cyffredinol yn 2015/16, er mwyn cael amser i ystyried a blaenoriaethu'r toriadau mewn modd cynhwysol, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2016/17.**

8.5 Mae gennym nifer o reserfau penodol a sefydlwyd gan y Cyngor sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn fanwl yn ystod 2015/16. Rhoddwyd sylw manwl i'r holl reserfau penodol gan y Cabinet ar 23 Mehefin 2015 a'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Mehefin 2015, pryd cymeradwywyd Polisi'r Cyngor ar Gronfeydd a trosglwyddwyd £4.5m tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Roedd rhestr o'r holl gronfeydd yn atodol i'r adroddiadau sydd ymlen y linciau isod:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=155&ver=4&

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=136&mid=211&ver=4&

8.6 Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mehefin 2016, i ystyried faint o le sydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma, gan symud unrhyw adnoddau a ryddheir i gwrdd â'r anghenion am adnodd i bontio hyd at £2m o doriadau ni ellir cyflawni o Ebrill 2016.

8.7 Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (cyhoeddwyd 27 Ionawr 2014), mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

> "Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."

8.8 Felly, dylid osgoi gwario'r balansau cyffredinol (cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy) eto yn 2016/17 i ymdrin â diffyg yn y gyllideb. O ganlyniad, bydd angen cefnogaeth penaethiaid adrannau a'r aelodau Cabinet perthnasol er mwyn symud digon o adnodd o sawl cronfa sydd wedi'i glustnodi ar gyfer defnydd penodol adrannol.

## 9 CYFALAF

9.1 Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

9.2 Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau yn cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau.

9.3 O ganlyniad, bu addasiadau a newidiadau yn y proffil arfaethedig ar gyfer cynlluniau unigol. Manylir ar rhain yn Atodiad 2 ac mae adroddiad dilynol yn nodi'r newidiadau arfaethedig.

9.4 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

**Tabl 3**
**Ariannu rhaglen gyfalaf 2016/17 – 2017/18**

| | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Gofynion Cyfalaf** | **22,141** | **12,286** |
| | | |
| **I'w ariannu drwy:** | | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 6,637 | 6,337 |
| Grant/benthyca tuag at ysgolion | 7,617 | 2,886 |
| Derbyniadau cyfalaf | 230 | 835 |
| Cyfraniad o refeniw | 1,072 | 1,344 |
| Benthyca darbodus | 6,585 | 884 |
| **Cyfanswm ariannu** | **22,141** | **12,286** |

9.5 Un agwedd o'r cynigion cyllido yw'r lefel uchel (£22m) o wariant cyfalaf sydd yn parhau i gael ei ariannu, o'i gymharu gyda'r gefnogaeth benodol a ddarperir yn y setliad (£6.6m). Mae hyn yn dangos y budd o gael cynllun hir dymor drwy'r strategaeth asedau sy'n caniatáu i ni lunio rhaglen hir dymor a cheisio uchafu'r budd a geir o fuddsoddiad cyfalaf y gellir ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## 10 CYNLLUN TYMOR CANOLIG I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNOL 2016/17 - 2019/20

10.1 Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod wedi medru prynu ychydig o amser yn ystod 2015/16 er mwyn penderfynu lle yw'r mannau gorau i fod yn cyflawni arbedion er mwyn sicrhau'r ardrawiad lleiaf posibl ar bobl Gwynedd. Nid pob Cyngor oedd mewn sefyllfa i fedru gwneud hyn.

10.2 Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2016/17, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y dair blynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2016/17 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â’r sialens o’n blaenau.

10.3 Y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw’r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2017/18 ymlaen. Gan fod y grant yn cynrychioli tua 75% o incwm y Cyngor, yn amlwg mae’r ffigwr yma yn allweddol i’r tafluniadau. Gwyddom o ddatganiadau’r Canghellor a datganiadau a wnaed gan Weinidogion yn Llywodraeth Cymru fod dyfodol heriol o flaen llywodraeth leol yng Nghymru.

10.4 Mae’r strategaeth ar gyfer y bedair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig a darbodus o’r hyn allasai ein taro, ond nid yw’r tybiaethau a ddefnyddiwyd na’r casgliadau wedi newid llawer ers y tafluniad cyflwynwyd i’r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015.

10.5 Nodir yn y tabl isod ganlyniadau’r tafluniadau diweddaraf, gan nodi’r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a’u gwireddu:

**Tabl 4**
**CYLLIDEB 2016/17 i 2019/20**

| | **2016/17 £'000** | **2017/18 £'000** | **2018/19 £'000** | **2019/20 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl Defnydd Balansau | 2,019 | | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,261 | 8,220 | 6,631 | 7,486 |
| Gostyngiad Grant Cyffredinol | 1,322 | 2,100 | 3,100 | 2,900 |
| Codi'r Dreth Cyngor | - 2,141 | - 2,220 | - 2,302 | - 2,387 |
| **Bwlch** | 11,461 | 8,100 | 7,429 | 7,999 |
| Arbedion Cyfredol | - 3,090 | - 3,947 | - 130 | - |
| Arbedion Ysgolion | - 2,095 | - 990 | - 263 | |
| Arbedion Ychwanegol | - 1,240 | - 2,692 | - 1,009 | - 2,315 |
| Y balans o'r bwlch = **Toriadau'r flwyddyn** | 5,036 | 471 | 6,027 | 5,684 |
| Toriadau'r flwyddyn ganlynol | 471 | | 5,684 | |
| **Toriadau'r 2 flynedd** (strategaeth 2 + 2) | **5,507** | | 11,711 | |

10.6 Adroddwyd yn Chwefror 2014 y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £50m dros y cyfnod 4 blynedd 2014/15 - 2017/18, a chynlluniwyd y strategaeth arbedion cyfredol.

10.7 Cyflwynwyd rhagolygon diwygiedig i gyfarfod 24 Tachwedd 2015 o'r Cabinet, gyda "senario ganolog" yn cynnwys cwtogiad mewn grant Llywodraeth o 2% erbyn 2016/17, roedd yn llawer llai pesimistaidd nac oedd yn gyffredin ar draws Gymru ar y pryd.

10.8 Casglwyd yn adroddiad Tachwedd "fod y tebygolrwydd o orfod gweithredu toriadau yn 2016/17 a 2017/18 ddim wedi newid yn sylweddol ers pryd cychwynnwyd y strategaeth toriadau cyfredol." Cadarnhaf fod hynny yn parhau i fod yn wir.

10.9 Ymhellach i doriad grant o 1.5% yn 'setliad' 2016/17 (ar sail setliad drafft Llywodraeth Cymru cyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2015), crynhoir y rhagolygon diwygiedig yn y tabl uchod.

10.10 Pe byddai'r Cyngor yn cynyddu'r Dreth Cyngor o 3.5% yn 2016/17 - 2019/20, gyda'r camau y bwriedir eu cymryd ynghyd â'r arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu, byddai hyn dal yn golygu ein bod angen edrych am arbedion ychwanegol sylweddol (hyd at £12m pellach) yn 2018/19 a 2019/20.

10.11 Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 blynedd. Yn anffodus, nid yw hynny'n ymarferol eleni, gan fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu setliad am un flwyddyn yn unig, heb unrhyw ffigyrau mynegol am flynyddoedd dilynol.

10.12 Felly, mae'n synhwyrol i gyflawni'r cynllun ymateb cyfredol am y ddwy flynedd nesaf, cyn adnabod y bwlch pellach i'w ariannu erbyn 2018/19 a 2019/20. Erbyn hynny, gobeithir bydd llywodraeth ganolog yn ariannu rhan o'r pwysau ar wasanaethau awdurdodau lleol, megis yr isafswm cyflog byw. Hefyd, gall y cynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol fod yn fwy eglur a chodi cyfleon am arbedion cynnar cyn 2020. Bydd y gymuned llywodraeth leol, gan gynnwys y Pennaeth Cyllid fel Cadeirydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru, yn ymgyrchu am setliadau pedair blynedd i'r dyfodol ar ôl etholiad Mai 2016.

10.13 Yn y cyfamser, argymhellir y dylid parhau i weithredu ar sail yr un amrediad o bosibiliadau a gytunwyd eisoes am 2016/17 – 2017/18, sef:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor o fewn amrediad 3.5% - 5% |
| Y Gyllideb Ysgolion | Parhau i weithredu'r targed £4.3m o'r gyllideb ysgolion |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Gweithredu fel bydd angen er mwyn arbed y balans fydd ar ôl |

10.14 Mae'r strategaeth i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd eisoes ar droed gyda £26m o gynlluniau wedi'u cymeradwyo, neu wedi'u gweithredu ers 2014/15, ac eraill gwerth £7m dan sylw pellach.

10.15 Mae'r strategaeth 'Her Gwynedd' i flaenoriaethu toriadau hefyd wedi symud ymlaen, gyda rhaglen gynhwysol yn sefydlu blaenoriaethau er mwyn ceisio sicrhau bydd y toriadau anochel yn adlewyrchu blaenoriaethau trigolion Gwynedd. Bydd hyn yn destun yr adroddiad dilynol ar raglen y cyfarfod yma.

10.16 Bydd adroddiad arall ar raglen y cyfarfod hwn yn trafod rhinweddau codi'r Dreth Cyngor 3.5% neu fwy erbyn 2016/17 er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau.

10.17 Bydd hynny yn ddewis i holl aelodau'r Cyngor. Fodd bynnag, gan nodi bydd bwlch pellach i'w wynebu erbyn y cyfnod 2018/19 – 2019/20, rhaid wynebu'r dewis anodd yma (torri neu codi'r dreth) eleni, yn hytrach na 'prynu amser' eto.

## 11 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

11.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu lleihad yn ein incwm ac angen i gwrdd â chostau chwyddiant, ayb, mae'n rhaid edrych am arbedion.

11.2 Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi adnabod y risg yma ac ers 2010 wedi atgoffa awdurdodau lleol o'u dyletswydd i asesu effaith eu penderfyniadau ariannol.

11.3 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol mewn cydweithrediad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac awdurdodau lleol eraill, a hynny drwy rannu ymarfer da ac adnabod camau effeithiol i'r dyfodol.

11.4 Ein nod yw sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Wrth asesu, byddwn yn ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

11.5 Wrth gynllunio ein cyllidebau, rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol, ac yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol. Casglwyd data a thystiolaeth eisoes ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr wybodaeth yma drwy ddadansoddi data newydd, monitro gwasanaethau ac ymgysylltu.

11.6 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Byddwn yn dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen i'r adran gynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect.

11.7 Mae'r gyllideb a argymhellir yn ceisio gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy'r penderfyniadau cyllidebol.

11.8 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod angen sicrhau cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

11.9 Fe geir manylion llawn yn Atodiad 1 ac fe welir fod y mwyafrif o'r cyfanswm £1,174,810 yn mynd naill ai i'r maes gofal cymdeithasol, neu anghenion dysgu ychwanegol.

## 12 CASGLIADAU

12.1 Ynghyd â'r adroddiad arall ar raglen y cyfarfod hwn sy'n trafod "toriadau", mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2016/17 ac yn cadarnhau dylid parhau gyda'r strategaeth ar gyfer dygymod a'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am y bedair blynedd i ddod.

## CYLLIDEB 2016/17

12.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £238.45m, wedi ychwanegu £12.28m sy'n cynnwys darparu £1,174,810 ar gyfer pwysau ar wasanaethau.

12.3 Argymhellir ariannu pwysau un-tro o £820,740 drwy adolygu cronfeydd penodol yn 2016 (byddwn yn clustnodi arian i'r perwyl yn yr adolygiad trydydd chwarter o gyllideb 2015/16).

12.4 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £166.99m a gydag incwm Treth Cyngor wedi'i gynyddu 3.5% i £60.00m, bydd hyn yn gadael bwlch o £5m i'w ddarganfod yn 2016/17.

12.5 Bydd modd dygymod a'r bwlch yma drwy gyfuniad o gamau, gan gynnwys cynnydd 3.5% yn y Dreth Cyngor, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Anghenion Gwario 2016/17 | £238,454,140 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | £166,990,200 |
| Llai incwm Treth Cyngor (4.5%) | £60,004,230 |
| Diffyg | £11,459,710 |
| Arbedion fydd wedi'u cyflawni | £6,424,500 |
| Y balans i'w gwrdd o Doriadau | £5,035,210 |

**12.6 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net ar ôl defnydd balansau o £226,994,430 (£238.45m llai arbedion o £11.46m). Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 3.**

**12.7 Pe bai'r Cyngor awydd tynnu cynlluniau allan o'r toriadau, yna bydd ffigwr y gyllideb yn cynnyddu cymesur â gwerth y cynlluniau rheiny, ac effaith cymesur ar lefel y dreth.**

**12.8 Argymhellir hefyd y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £22.141m ar gyfer 2016/17 ynghyd â £12.286m ar gyfer 2017/18.**

**STRATEGAETH TYMOR HIRACH**

**12.9** O ran y sefyllfa dros y bedair blynedd nesaf, dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o £17m drwy gadw'r holl opsiynau yn agored, a dylid parhau i anelu i ddarganfod mwyafrif y bwlch drwy uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gallwn eu gwireddu.

## CRYNODEB BIDIAU 2016/17

| | Swm y Cais (£) | Cymeradwyo ariannu gan y Cabinet (£) | Cymeradwyo a'r Adran i Hunan Gyllido (£) | Gwrthod (£) |
|---|---|---|---|---|
| Bidiau Refeniw Parhaol | 1,467,060 | 1,174,810 | 62,440 | 229,810 |
| Bidiau Refeniw Un Tro | 1,160,490 | 820,740 | 231,000 | 108,750 |
| Bidiau Cyfalaf | 490,000 | 80,000 | 100,000 | 310,000 |
| **CYFANSWM BIDIAU** | **3,117,550** | **2,075,550** | **393,440** | **648,560** |

**Bidiau Refeniw Parhaol 2016/17**

| Cais | | | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Manylion | Swm (£) | Cymeradwyo ariannu gan y Cabinet (£) | Cymeradwyo a'r Adran i Hunan Gyllido (£) | Gwrthod (£) |
| A. ADDYSG 1 | <u>Cludiant Ysgolion</u><br>*Tacsis, Bysiau Mini a Bysus Ysgol:*<br>Cynnydd net yng nghostau cludiant disgyblion/myfyrwyr ers sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2015/16, yn arbennig mwy o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ers Medi 2015. | 228,010 | 228,010 | | |
| A. ECONOMI 1 | <u>Colled Grant Nofio am Ddim</u><br>Cais yn sgil lleihad o 39% (h.y. £55k) yn y grant a dderbynnir, gyda'r Gwasanaeth eisoes yn darparu lleiafswm y ddarpariaeth.<br><br>***Argymell gwrthod y bid ar sail bod disgwyliad i'r Adran leihau eu darpariaeth yn sgil lleihad grant.*** | 54,840 | | | 54,840 |
| A. OEDOLION 1 | <u>Amser Teithio Gofalwyr Cymunedol</u><br>Nid yw'r ffioedd a delir i ofalwyr cymunedol am ofal cartref yn cymryd i ystyriaeth yr amser a dreulir yn teithio rhwng galwadau gofal. Effaith hyn yw nad yw gofalwyr yn cael eu talu am yr amser maent yn teithio rhwng galwadau.<br><br>***Argymell cymeradwyo rhan o'r bid, gyda'r gweddill o dan ystyriaeth pellach y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.*** | 415,000 | 352,750 | | 62,250 |

| Cais | | | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Manylion | Swm (£) | Cymeradwyo ariannu gan y Cabinet (£) | Cymeradwyo a'r Adran i Hunan Gyllido (£) | Gwrthod (£) |
| A. OEDOLION 3 | <u>Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo</u><br>Ariannu pecynnau gofal 13 unigolyn sydd yn trosglwyddo o'r Gwasanaeth Plant i'r Gwasanaeth Oedolion (Anabledd Dysgu). | 374,630 | 374,630 | | |
| A. OEDOLION 4 | <u>Trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaeth ym maes Anabledd Dysgu</u><br>Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am 5 pecyn gofal i Wynedd o awdurdodau eraill ar sail "Ordinary Residence". | 156,600 | 156,600 | | |
| A. OEDOLION 5 | <u>Achos Whittlestone (Cartrefi'r Cyngor)</u><br>Mae achos llys Whittlestone wedi dyrannu bod unrhyw oriau a dreulir yn "cysgu i mewn" yn rhan o oriau gwaith wythnosol y gweithiwr. Ar sail hyn rhagwelir nad yw'r lwfansau cysgu i mewn a delir ar hyn o bryd yn ddigonol. | 62,820 | 62,820 | | |
| A. PRIFFYRDD 1 | <u>Lleihad Grant Amgylcheddol a Gwastraff</u><br>Cais er mwyn ymdopi gyda chynnydd yng ngwariant yr Adran yn dilyn lleihad oddeutu 4% yn y grant (h.y. £150k), lleihad mewn costau tirlenwi o (£62k). A hefyd costau uwch er mwyn ymdrin â chewynnau o £28k.<br>*Argymell gwrthod y bid ar sail bod disgwyliad i'r Adran leihau eu darpariaeth yn sgil lleihad grant.* | 112,720 | | | 112,720 |
| A. CYLLID 1 | <u>Gostyngiad Grant Gweinyddu Budd-dal</u><br>Cais yn sgil toriad blynyddol yn y grant Gweinyddu Budd-dal, bydd toriad gwerth 12.4% (h.y. £62k) yn 2016/17. | 62,440 | | 62,440 | |
| **CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL** | | **1,467,060** | **1,174,810** | **62,440** | **229,810** |

**Bidiau Refeniw Un tro 2016/17**



| Cais | | | | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Manylion | Swm (£) | | Cymeradwyo ariannu gan y Cabinet (£) | Cymeradwyo a'r Adran i Hunan Gyllido (£) | Gwrthod (£) |
| B. ADDYSG 2 | <u>Cludiant Maesgeirchen</u><br>Cais i barhau gyda'r trefniant o gludo plant ardal Maesgeirchen i ysgolion Friars a Tryfan, hyd a ddarganfyddir datrysiad amgenach. | 67,830 | | 67,830 | | |
| B. OEDOLION 1 | <u>Amser Teithio Gofalwyr Cymunedol (elfen ôl ddyddio 2014)</u><br>Nid yw'r ffioedd a delir i ofalwyr cymunedol am ofal cartref yn cymryd i ystyriaeth yr amser a dreulir yn teithio rhwng galwadau gofal. Effaith hyn yw nad yw gofalwyr yn cael eu talu am yr amser maent yn teithio rhwng galwadau.<br><br>***Argymell cymeradwyo rhan o'r bid, gyda'r gweddill o dan ystyriaeth bellach y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.*** | 725,000 | | 616,250 | | 108,750 |
| B. OEDOLION 2 | <u>Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)</u><br>Cais yn sgil cynnydd yn y nifer o unigolion sydd angen asesiad naill ai mewn cartrefi gofal, neu yn y gymuned, er mwyn awdurdodi'r camau a gymerir i'w diogelu.<br><br>***Argymell bod yr Adran yn cyllido'r costau asesiadau meddygol.*** | 62,660 | | 49,660 | 13,000 | |

| Cais | | | | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Manylion | Swm (£) | | Cymeradwyo ariannu gan y Cabinet (£) | Cymeradwyo a'r Adran i Hunan Gyllido (£) | Gwrthod (£) |
| B. PLANT A THEULUOEDD 1 | Lleoliadau Maethu Plant Drwy Asiant<br>Cais er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd yn y nifer o leoliadau newydd.<br><br>***Argymell bod yr Adran yn cyllido rhan o'r bid ar y sail gellir trosglwyddo cyllidebau eraill i gwrdd gyda'r diffyg.*** | 175,000 | | 57,000 | 118,000 | |
| B. RHEOLEIDDIO 1 | Eiddo - Lefelau Radon Adeiladau'r Cyngor<br>Ariannu rhaglen i asesu lefelau Radon yn adeiladau'r Cyngor. Mae'n ofyniad cyfreithiol i asesu ac adrodd ar lefelau radon yn y gweithleoedd ac ysgolion. | 70,000 | | | 70,000 | |
| B. RHEOLEIDDIO 2 | Eiddo - Uwchraddio drysau mynediad diogelwch i swyddfeydd y Cyngor<br>Yn sgil digwyddiadau, mae angen camau i wella trefniadau mynediad diogel i swyddfeydd. | 60,000 | | 30,000 | 30,000 | |
| **CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO** | | **1,160,490** | | **820,740** | **231,000** | **108,750** |

**Bidiau Cyfalaf 2016/17**

| Cais | | | Argymhelliad | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Manylion | Swm (£) | Cymeradwyo ariannu gan y Cabinet (£) | Cymeradwyo a'r Adran i Hunan Gyllido (£) | Gwrthod (£) |
| C. ECONOMI 1 | <u>Cronfa Datblygu Gwirfoddol – "Grantiau" i'r Trydydd Sector</u><br>Arian tuag at gefnogi prosiectau cyfalaf gan fudiadau a mentrau cymdeithasol a gwirfoddol. Rheolir y gyllideb dan frand Cist Gwynedd.<br><br>***Yn sgil sefyllfa ariannol y Cyngor, argymhellir cyllido elfen o'r bid a hynny ar gyfer 2016/17 yn unig***. | 140,000 | 80,000 | | 60,000 |
| C. ECONOMI 2 | <u>Llifddorau a Gwaith Carthu Doc Fictoria</u><br>Cais er mwyn ariannu gwaith hanfodol i leihau lefelau siltio yn y doc. Mae'r lefel presennol o'r silt yn amharu ar fynediad a symudiad o fewn y doc, a hefyd wedi difrodi'r llifddorau.<br><br>*Argymell gwrthod y bid ar sail dylai'r Adran ystyried gynyddu ffioedd neu ddefnydd o gyllideb cynnal a chadw er mwyn cwrdd â'r gost.* | 250,000 | | | 250,000 |
| C. RHEOLEIDDIO 1 | <u>Trafnidiaeth - Ffensys Diogelwch A4212 Llyn Celyn</u><br>Cais er mwyn ariannu gosod rhwystrau diogelwch ar y A4212 ger Llyn Celyn, er mwyn lleihau damweiniau cerbydau yno. | 100,000 | | 100,000 | |
| **CYFANSWM BIDIAU CYFALAF** | | **490,000** | **80,000** | **100,000** | **310,000** |

**ATODIAD 2**

## RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2016/17 – 2017/18

| | **2016/17**<br>**£'000** | **2017/18**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ôl groniad ac osgoi ôl groniad pellach) | 2,553 | 2,553 |
| Gwaith Tan ac Asbestos | 500 | 350 |
| Trefniadaeth Ysgolion | 14,967 | 5,753 |
| Newid dosbarthiadau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes | 779 | 0 |
| Goleuadau Stryd | 50 | 50 |
| Ffensys diogelwch ar y ffyrdd | 134 | 134 |
| Ymdrin â dŵr ar y ffyrdd | 100 | 100 |
| Meysydd Chwarae | 35 | 35 |
| Adnewyddu Cerbydau | 58 | 0 |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 100 | 100 |
| Lonydd Glas | 20 | 20 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 388 | 436 |
| Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau | 155 | 155 |
| Grantiau Tai | 2,000 | 2,000 |
| I'w ddyrannu | 302 | 600 |
| **Cyfanswm** | **22,141** | **12,286** |

**ATODIAD 3**

# CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2016/17 FESUL GWASANAETH

**Cyllideb 2016/17**

| ADRANNAU | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Chwyddiant ac Y.G. £'000 | Incrementau, Trosiant a Phensiynau £'000 | Trosglwyddiad i'r Setliad, Demograffi ac Incwm £'000 | Amrwyiol £'000 | Pwysau ar Wasanaethau £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2016/17 £'000 | Arbedion a Thoriadau £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,023 | 40 | (6) | 0 | (6) | 0 | 2,051 | 0 | 2,051 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,364 | 138 | (19) | 0 | (274) | 0 | 7,209 | (133) | 7,076 |
| Cyllid | 6,255 | 187 | (33) | 0 | 44 | 0 | 6,453 | (179) | 6,274 |
| Cefnffyrdd | (87) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (87) | 0 | (87) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 21,916 | 473 | 0 | 0 | (45) | 0 | 22,344 | (472) | 21,872 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 7,788 | 178 | 5 | (110) | 159 | 0 | 8,020 | (350) | 7,670 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (30) | 95 | 3 | 280 | (5) | 0 | 343 | (76) | 267 |
| Addysg Canolog | 13,375 | 167 | 36 | 52 | 154 | 228 | 14,012 | (65) | 13,947 |
| Cyllideb Ysgolion | 69,174 | 1,646 | 363 | (485) | (210) | 0 | 70,488 | (2,095) | 68,393 |
| Economi a Chymuned | 7,216 | 82 | 46 | 75 | (13) | 0 | 7,406 | (484) | 6,922 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 44,171 | 2,281 | (19) | 265 | 55 | 437 | 47,190 | (977) | 46,213 |
| Plant a Chefnofi Theuluoedd | 12,785 | 297 | (6) | (54) | 53 | 0 | 13,075 | (353) | 12,722 |
| **Cyfanswm Adrannau** | 191,950 | 5,584 | 370 | 23 | (88) | 665 | 198,504 | (5,184) | 193,320 |
| Materion corfforaethol a chyfalaf | 37,920 | 1,203 | (62) | 1,559 | 497 | 510 | 41,627 | (6,276) | 35,351 |
| **CYFANSWM =** | **229,870** | **6,787** | **308** | **1,582** | **409** | **1,175** | **240,131** | (11,460) | 228,671 |
| **Llai Praesept Cynghorau Cymuned** | (1,677) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,677) | | (1,677) |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | 228,193 | 6,787 | 308 | 1,582 | 409 | 1,175 | 238,454 | (11,460) | 226,994 |
| **Ariannwyd Drwy:** | | | | | | | | | |
| **Balansau a Reserfau Penodol** | (2,019) | 0 | 0 | 0 | 2,019 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM NET =** | **226,174** | **6,787** | **308** | **1,582** | **2,428** | **1,175** | **238,454** | (11,460) | 226,994 |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL: | **Toriadau i gyfarch y bwlch ariannol** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno'r toriadau y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DILWYN WILLIAMS, PRIF WEITHREDWR** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â pha doriadau i'w argymell i'r Cyngor ar y 3ydd o Fawrth.

**2.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Chwefror 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins

**Pwnc:** Toriadau i gyfarch y bwlch ariannol

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

---

**Y penderfyniad a geisir**

a) Cymeradwyo'r rhaglen o doriadau a nodir yng nghymal 48 a 52 isod er mwyn cyfarch £4.941m o'r bwlch ariannol o £5.507m y mae'r Pennaeth Cyllid wedi ei adnabod yn y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17 a 2017/18, gan gynyddu'r Dreth Gyngor i 3.97% yn 2016/17 a chynllunio ar gyfer ffigwr o 3.97% yn 2017/18 er mwyn cyfarch gweddill y bwlch.
b) Cytuno i weddill yr argymhellion a nodir yng nghymalau 20 i 24 ; 27 a 62.

---

**Cyflwyniad**

1. Mae adroddiad y Pennaeth Cyllid ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17 - 2019/20 yn nodi bwlch ariannol o £5.507m ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ar ôl darganfod arbedion effeithlonrwydd a chynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% yn y ddwy flynedd.

2. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddwn yn medru darganfod a gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd dan sylw, ac y byddem yn cadw at gynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.5%, yna bydd angen i ni ddarganfod toriadau cyfwerth a'r swm yma er mwyn sicrhau cyllideb hafal – sef y gofyn statudol ar y Cyngor.

3. Yn dilyn proses a ymgymerwyd gan y Cabinet i asesu beth fyddai modd i'r Cyngor ei dorri, yn ystod yr Haf y llynedd, cynhaliwyd cyfres o weithdai aelodau i drafod y rhestr fer honno ac yn dilyn hynny fe sefydlwyd rhestr gwerth tua £13.6m o doriadau y byddai modd eu torri pe byddai angen.

4. 'Roedd tua £1.3m o'r toriadau yma yn gynlluniau mewn gwasanaethau oedd yn "gefnogol" eu natur ac felly, gan gymryd na fyddai bobl Gwynedd yn debygol o roddi blaenoriaeth i wariant "cefnogol" ei natur, er mwyn symleiddio'r broses, fe benderfynwyd y dylid canolbwyntio'r broses canfod barn y cyhoedd ar y £12.3m o gynlluniau oedd ar ôl.

5. Yn ystod yr Hydref, cynhaliwyd y broses canfod barn o dan faner "Her Gwynedd".

6. Daethpwyd a'r broses canfod barn hwnnw i ben ar ddiwedd Tachwedd ac mae yna adroddiad cyhoeddus yn manylu sut y gwnaeth bobl Gwynedd ymarfer eu dewisiadau ar gael drwy ddilyn y linc isod –

   https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Her-Gwynedd.aspx

7. Yn ystod mis Ionawr cafwyd cyfres o weithdai i holl aelodau'r Cyngor gael y cyfle i graffu'r farn a fynegwyd gan y cyhoedd gan hefyd ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ar y gwahanol gynigion. Yn y gweithdai hynny cafwyd cyfle i drafod y gwahanol gynigion a'u heffaith ymhellach ac ar 26 Ionawr cynhaliwyd gweithdy cyfansawdd i nodi'r materion oedd wedi codi yn ystod y gweithdai unigol ac i weld beth oedd barn trwch yr aelodau ar y materion a godwyd.

**Canlyniad y gweithdai**

8. Mae Atodiad 1 yn gosod allan y 118 o gynigion torri fel y'u gosodwyd gan yr holl unigolion a gymrodd rhan yn y broses canfod barn.

9. Pe byddem yn dilyn yn slafaidd y cynigion yn ôl y nifer pleidleisiau a dderbyniwyd gan y cyhoedd, yna byddem angen torri holl gynlluniau band 0, band 1 , band 2 , band 3 a rhan fwyaf o fand 4 i gwrdd â'r bwlch ariannol.

10. Yn ystod y broses canfod barn, fe danlinellwyd nad "refferendwm" oedd y broses yma ac na fyddem yn dilyn y farn yn slafaidd. Gofyn am eu barn ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddynt oedd y bwriad gan dderbyn mai dim ond elfen o'r darlun fyddai ganddynt, a hynny er mwyn i'r aelodau gael deall eu barn wrth ddod i gasgliadau.

11. Yn amlwg mae'n rhaid i'r aelodau ystyried y cynigion gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac wrth gwrs mae barn y cyhoedd yn un ffactor pwysig yn hynny oll ac os am wyro oddi wrth eu barn mae'n bwysig amlygu pam yr ydym am wneud hynny.

12. Yn ystod y gweithdai 'roedd yna dderbyniad cyffredinol o'r drefn a roddwyd i'r cynigion gan bobl Gwynedd ond fe godwyd nifer o ffactorau a nodir isod. Rwyf hefyd yn nodi fy ymateb innau iddynt ynghyd a'm hargymhelliad i'r Cabinet eu hystyried o ran yr argymhellion y bwriedir eu gwneud i'r Cyngor.

13. **Cynlluniau 18 (Uned Prosiectau Strategol); 41 (Uned Cefnogi Busnes) ; 45 (Uned Cefnogi Digwyddiadau) ; a 56 (Gwasanaeth Marchnata a Thwristiaeth).**

    Yn ystod y gweithdai daeth yn amlwg fod nifer o aelodau yn teimlo nad oedd barn busnesau yng Ngwynedd wedi dod drwodd ddigon cryf a'i fod wedi cael ei foddi gan lais trwch trigolion Gwynedd oedd yn dymuno gwarchod gwasanaethau fyddai'n fwy perthnasol iddynt hwy.

Tra’n derbyn fod yna rai cynlluniau o fewn y rhestr y gellid eu torri, ‘roedd yna nifer helaeth o aelodau yn teimlo y byddai goblygiadau torri’r cynlluniau uchod yn eithriadol o bell gyrhaeddol ar allu busnesau o fewn Gwynedd i ffynnu. Yn y pen draw byddai gan hynny effaith ar holl economi Gwynedd a’i drigolion ac fe allasai fod yn wrth gynhyrchiol.

‘Rwyf yn cydymdeimlo a’r ddadl ac yn wyneb eu heffaith tebygol ar ein gallu i gyflawni’r Cynllun Strategol ynghyd e’u heffaith ar gynaliadwyedd i’r dyfodol ***‘rwyf yn argymell y dylid eu tynnu allan o’r toriadau.***

***14.*** **Cynlluniau rhif 3 a 57 (Grantiau Strategol i’r Celfyddydau) a 24 (Uned Celfyddydau Cymunedol)**

‘Roedd yna ymdeimlad ymysg nifer o aelodau yn y gweithdai pe byddem yn parhau i ddileu’r holl gynlluniau uchod ni fyddai yna unrhyw gefnogaeth o gwbl yn cael ei gynnig gan y Cyngor i’r celfyddydau o fewn y sir ac fe allasai hynny gael effaith andwyol sylweddol wrth i asiantaethau eraill gymryd hynny fel arwydd na ddylent hwy fuddsoddi yn y sir chwaith.

Tra’n derbyn fod y celfyddydau yn mynd i orfod chwarae rhan yn y toriadau ‘roedd yna fwyafrif o aelodau o’r farn fod dileu’r tri chynllun yn ormodol ac y dylid cyfyngu’r toriadau i gynllun 3.

Gallaf weld y ddadl yma, ac o ystyried y dadleuon o ran cynaliadwyedd i’r dyfodol o ran cyfraniad y celfyddydau i ansawdd bywyd bobl Gwynedd ynghyd a’r effeithiau a nodir yn yr asesiadau cydraddoldeb,***argymhellaf y dylid dileu cynlluniau 24 a 57 o’r toriadau gan adael Cynllun 3 i mewn.***

***15.*** **Cynllun rhif 33 (Cinio Ysgol).**

‘Roedd yna fwyafrif helaeth o aelodau yn teimlo fod cynddu pris cinio ysgol yn ormodol a thre bod angen ystyried ei gynyddu i ddod ag ef yn agosach at y gost o’i ddarparu ‘roedd cynnydd o 70c yn ormodol yn enwedig o gofio’r effaith ar y teuluoedd hynny gyda mwy nag un plentyn yn derbyn cinio ysgol. Nodwyd hefyd efallai y gellir ystyried dulliau gwahaniaethol o osod y pris.

Yn amlwg ‘roedd yna deimladau cryf ar hwn ac yn wyneb yr asesiad effaith cydraddoldeb a’r ffaith nad yw’n ymddangos fod yna ffordd hawdd i feirioli’r effaith hwnnw, ***fy argymhelliad yw y dylid lleihau maint y cynnydd uchaf o £3.00 i £2.50.***

***16.*** **Cynllun rhif 7 (Uned Adfywio Gymunedol)**

Gyda’r toriad yma, codwyd y cwestiwn yn y gweithdai a oedd yr amseriad yn briodol o gofio y byddwn angen helpu cyrff a chymunedau sydd am gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau i wneud hynny. O dorri’r adnodd nawr, byddai hynny yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hynny ac ‘roedd yna fwyafrif sylweddol yn teimlo ei fod yn gynamserol.

Yn amlwg mae helpu cyrff a chymunedau i gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau yn rhan annatod o'r Cynllun Strategol a chytunaf felly gyda'r asesiad ***gan argymell y dylid ei dynnu allan o'r toriadau***

***17.*** **Cynllun rhif 34 (Gwasanaeth Cefnogol Derwen)**

Adroddwyd yn y gweithdai fod yna risgiau o sylwedd wrth dorri'r adnodd cefnogol yma i'r graddau fod yr effaith ar blant a'u teuluoedd yn fwy na rhai o'r cynlluniau eraill yr oedd y cyhoedd wedi rhoddi blaenoriaeth uwch iddynt.

Nodwyd fod yna gynllun arall yn ymwneud a Derwen (rhif 43) ac yn wyneb y ffaith fod yna arbediad effeithlonrwydd yn y maes yma hefyd, y byddai torri'r ddau gynllun yn cael effaith eithafol. Tra'n derbyn fod yn rhaid i'r Gwasanaeth Plant chwarae ei ran yn y broses toriadau, yn enwedig o ystyried ein lefel gwariant cymharol, barn mwyafrif yr aelodau oedd na ddylid torri'r cynllun yma, ond gan adael Cynllun rhif 43 yn y toriadau.

Mae hwn i weld yn gynllun lle nad yw'r wybodaeth a roddwyd i weld wedi galluogi pobl Gwynedd i ystyried ei lawn effaith ac felly yn wyneb yr asesiad effaith cydraddoldeb a'r pwyntiau a wnaed yn y gweithdai,***argymhellaf y dylid dileu cynllun rhif 34 o'r toriadau gan adael cynllun rhif 43 yno.***

***18.*** **Cynlluniau rhif 4 a 35 (Uned Gorfodaeth Stryd)**

Nodwyd peth syndod fod pobl Gwynedd wedi gosod cymaint o'r gwasanaeth gorfodaeth stryd yn isel o ran blaenoriaeth o gofio'r hyn sy'n codi'n aml o ran cwynion am lanast a baw cwn a y b.

Tra'n derbyn hynny, 'roedd yna ymdeimlad cryf yn y gweithdai y dylid gwrando ar y cyhoedd a'i adael i mewn ond na ddylid mynd rhy bell a thra'n derbyn y toriad o 2 swydd oedd ynghlwm a chynllun 4 ni ddylid mynd y cam pellach a dileu trydedd swydd oedd ynghlwm a chynllun 35.

'Rwy'n cydymdeimlo gyda'r farn a fynegwyd a chan nodi'r hyn sy'n ymddangos yn yr asesiad cydraddoldeb ***'rwyf yn argymell felly fod cynllun rhif 35 yn cael ei dynnu allan o'r rhestr toriadau.***

***19.*** **Cynllun 36 (Ardal Harddwch Naturiol Llyn)**

Adroddwyd fod yna newidiadau ar droed yn y maes yma gan y Llywodraeth allasai olygu y byddai'n rhaid i ni wneud mwy na'r hyn sy'n ofynol ar hyn o bryd neu weithredu newidiadau o sylwedd. Nodwyd hefyd yr incwm oedd yn dod i'r ardal yn sgil y gwaith a wneir ac yn wyneb hyn oll 'roedd yna fwyafrif llethol yn ystyried fod ei dorri nawr yn gynamserol.

Tra'n nodi barn y cyhoedd mae yna dystiolaeth efallai ei fod yn gynamserol i ystyried dyfodol yr Uned yma ac felly ***fy argymhelliad yw y dylid dileu'r cynllun o'r toriadau.***

**_20._ Cynllun 31 (Clybiau Ieuenctid ) a 54 (Grantiau i Fudiadau Ieuenctid)**

Nodwyd fod yna gynllun amlinellol arbedion effeithlonrwydd wedi ei gyflwyno gan y gwasanaeth i ail ddylunio'r gwasanaeth Ieuenctid gan arbed £70,000. Mae disgwyl iddynt gyflawni hyn fel rhan o'r gofynion effeithlonrwydd.

Tra'n derbyn nad oedd bobl Gwynedd wedi rhoddi blaenoriaeth uchel i'r clybiau ieuenctid , 'roedd barn bobl ifanc wrth gwrs yn wahanol ac 'roedd yna farn gref ymysg trwch yr aelodau fod angen newid diffiniad Cynllun 31 i nodi mai'r hyn y dylid ei wneud yw ail ddylunio'r holl wasanaeth gan arbed y swm a nodir yng nghynllun 31 a'r £70,000 sydd yn y cynllun arbediad effeithlonrwydd yn hytrach na chymryd y camau "hawdd" o gau clybiau.

Tra'n derbyn fod y grantiau a delir i fudiadau ieuenctid angen bod yn rhan o'r adolygiad, 'roedd yna fwyafrif o aelodau hefyd yn ystyried y byddai ychwanegu'r swm grantiau at yr arbediad disgwyliedig yn gwneud unrhyw ail ddylunio yn anymarferol ac felly na ddylid cynnwys cyllideb cynllun rhif 54.

Cytunaf gyda'r farn yma ac o ystyried yr hyn sydd yn cael ei nodi yn yr asesiad cydraddoldeb, tra'n nodi y dylid cadw gwerth cynllun rhif 31 yn y toriadau, ***argymhellaf y dylid hepgor cyllideb cynllun rhif 54 (gan dderbyn y bydd yn rhaid i'r grantiau yma fod yn rhan o'r adolygiad), a newid y cynllun dan sylw i fod yn ail ddylunio'r Gwasanaeth Ieuenctid gan arbed £270,000 (sef y £200,000 a nodwyd ar gyfer Cynllun rhif 31 a'r arbediad effeithlonrwydd sy'n ddisgwyliedig).***

Gan y bydd disgwyl i'r Gwasanaeth adrodd ar yr union gynigion i'r Cabinet cyn gweithredu dylid nodi hefyd yr angen i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roddi i'r agwedd ofodol o unrhyw ail ddylunio.

**_21._ Cynllun 55 (Llyfrgelloedd)**

O fewn y rhestr cynlluniau arbedion effeithlonrwydd, mae gan y Gwasanaeth gynllun ar y gweill i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon ac maent wedi bod yn ymgynghori ar hynny ar wahân. Trwy roddi cynllun 55 yn y safle y'i rhoddwyd, 'roedd y rhai a ymatebodd yn cadarnhau eu bod yn fodlon gweld hynny yn digwydd ond nid oeddent yn dymuno i ni fynd ymhellach. [Mae Cynllun 55 yn disgrifio'r hyn ddaeth allan o'r broses ymgynghori ar y Cynllun Effeithlonrwydd].

Mae yna rywfaint o ddryswch wedi bod ynglŷn â'r swm sy'n ymddangos gyferbyn a'r dewis yma gan ei fod yn cynrychioli arbediad uwchben y targed effeithlonrwydd o £101,370 fyddai'n cael ei wireddu drwy greu cynnig mwy caeth ei natur.

'Roedd yna fwyafrif bychan yn y gweithdai yn ystyried na ddylid gweithredu'r toriad pellach yma ac os oedd yna angen i fynd ar ol y cynllun effeithlonrwydd, y dylid ystyried pa mor anodd yw hi i ardaloedd gwledig ddarganfod gwirfoddolwyr ac i ystyried a yw hi'n haws i ardaloedd trefol

wneud hynny.  Nodwyd hefyd y dylid ystyried lleihau oriau agor fel ffordd i arbed yn hytrach na newid natur y llyfrgelloedd hynny.

Cytunaf fod angen rhoi ystyriaeth i'r sylwadau hyn a nodi hefyd bwysigrwydd anghenion y gwahanol grwpiau oedran yn yr asesiad cydraddoldeb.  Yn sgil hynny ***fy argymhelliad yw bod y newidiadau disgwyliedig ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell yn cael eu cyfyngu i'r arbediad effeithlonrwydd a ddisgwylir (sy'n golygu'r elfen o newid a nodir yn y tabl ar gyfer cynllun 55) ond nad ydym yn gofyn am y £28,000 ychwanegol ac yn dileu'r swm hwnnw o'r toriadau.***

Yma hefyd wrth ystyried yr hyn y dylid ei wneud mae angen ystyried y gogwydd gofodol.

***22.*** **Cynllun Rhif 96 (Teledu Cylch Cyfyng)**

Er gwaethaf y ffaith fod y cyhoedd wedi rhoddi blaenoriaeth uchel i gadw'r gwasanaeth yma (gan dderbyn drwy gynllun rhif 20 y dylid anelu am elfen o doriad), 'roedd yna ymdeimlad ymysg nifer yn y gweithdai fod yna anghysondeb ar draws y sir; bod y gost ar y Cyngor yn anghymesur i gyfraniad cyrff eraill ac nad oedd yn rhan o ofynion craidd y Cyngor.

Yn sgil hynny 'roedd yna farn y dylid ei ddyrchafu i fand 4 er mwyn ei dorri'n gyfan gwbl.

'Rwy'n teimlo'n anesmwyth am hyn, ac nid wyf yn ystyried ein bod wedi talu digon o sylw i'r dystiolaeth ynglyn a gwerth yr adnodd yma; barn y cyhoedd am ei werth iddynt hwy (gyda 42% o'r rhai a ymatebodd yn nodi ei fod yn flaenoriaeth iddynt a'i osod ym mand 7) nac ychwaith i'r ddyletswydd sydd arnom i sicrhau diogelwch cymunedol.

Dylid talu sylw hefyd i'r hyn a nodir yn yr asesiad cydraddoldeb.

Byddwn yn derbyn yn llwyr fod y gost yn cael ei gario yn anghymesur gan y Cyngor ond byddwn yn dadlau mai ceisio cywiro hynny y dylem fod yn ei wneud yn hytrach na dileu'r Gwasanaeth.  Oherwydd hynny 'rwy'n***argymell y dylid cadw Cynllun rhif 20 yn y toriadau gan nodi y dylid ceisio gwireddu'r arbediad drwy leihau cyfraniad y Cyngor a gwneud unrhyw newidiadau gweithredu y gellid eu gwneud heb amharu ar effeithioldeb y gyfundrefn a pheidio â dod a chynllun 96 i mewn i'r toriadau.***

***23.*** **Cynllun rhif 97 (Gwasanaethau torri gwair canol trefi)**

Nodwyd yn y gweithdai er gwaethaf y ffaith fod y cyhoedd wedi rhoddi blaenoriaeth i hwn, mae yna le i ystyried gofyn i gynghorau tref a chymuned ei ysgwyddo.  Drwy ei dorri byddai hynny yn gorfodi cynghorau lleol i ystyried gwneud hynny, ac 'roedd yna fwyafrif bychan o blaid gwneud hynny.

Mae gen i gydymdeimlad gyda'r syniadaeth sydd y tu ol i'r egwyddor yma ac efallai y byddai penderfynu ei dorri yn annog rhai i gymryd cyfrifoldeb amdano. Wedi dweud hynny, nid oes yna unrhyw sicrwydd o hynny a byddwn yn ***argymell yn wyneb y flaenoriaeth a roddwyd iddo gan y cyhoedd, y dylid ei gofnodi fel awgrym ar gyfer arbediad effeithlonrwydd yn hytrach na'i dorri a gobeithio y bydd rhywun yn ei gymryd drosodd***.

*24.* **Cynlluniau rhif 63 (Rheolaeth Gwaith Ffyrdd); 65 (Gwasanaeth Oedolion); 66 (Cymorth i Ferched) ; 71 (Uned Ddigartrefedd) ; 72 (Pont Abermaw) ; 78 (Pont yr Aber, Caernarfon) ; 85 (Rheoli Traethau)**

Yn ystod y trafodaethau yn y gweithdai, er nad oedd y cynlluniau uchod yn y 4 band uchaf, roedd yna ymdeimlad gan fwyafrif yr aelodau nad oedd ardrawiad y cynlluniau uchod gymaint â rhai o'r cynlluniau oedd yn ymddangos ym mand 5 ac y dylid felly eu dyrchafu i waelod band 4 i'w cynnwys o fewn y toriadau.

O ran cynlluniau 63, 65 a 71, byddwn yn derbyn mai lleihau rhywfaint ar yr adnodd sydd ar gael yn y meysydd unigol yw'r cynigion yma, ac er fod yna ymdeimlad gan y cyhoedd fod rhain yn uwch o flaenoriaeth na chynigion eraill ym mandiau 1- 4, a bod yna faterion yn cael eu cyfwirio atynt yn yr asesiadau cydraddoldeb, yn wyneb yr effaith gymharol a ystyriwyd gan yr aelodau yn y gweithdai, cytunaf gyda'r hyn a ddywedwyd yn y gweithdai ac***argymhellaf y dylid eu cynnwys yn y toriadau***.

Gyda chynllun 66, nid wyf yn hollol argyhoeddedig na fyddai torri'r cyfraniad yma yn cael effaith na allwn ei feirioli ar rai plant ac ar y Gwasanaeth ehangach o gofio'r defnydd a wneir o gyfraniad y Cyngor i ddenu arian cyfatebol, ond nid wyf chwaith yn llwyr grediniol fod y gwasanaethau mor effeithlon ag y gellid bod.

Er mwyn annog y cyrff i ystyried edrych am ffyrdd o fod yn fwy effeithlon o ran eu gweithgareddau byddwn yn ***argymell nad ydym yn dyrchafu'r cynllun i'r toriadau (gan adael iddo fod lle mae ym mand 5) ond yn amodol ar iddynt fodloni'r Gwasanaeth eu bod wedi edrych am yr holl gyfleon posibl i fod mor effeithlon a phosibl, gan gynnwys unrhyw arbediad fyddai'n deillio yn yr arbedion effeithlonrwydd.***

Os na fydd hynny'n digwydd dylid ail ymweld â'r cynllun.

O ran Cynllun 72 a 78, nid oedd y strwythurau yma yn uchel iawn o ran eu blaenoriaeth yn y gweithdai.

Mae yna deimlad cryf wrth gwrs fod y symiau yr ydym yn ei dalu tuag at y ddwy bont yma yn anghymesur o ystyried fod holl drethdalwyr Gwynedd yn talu tuag atynt. Serch hynny, rhaid derbyn yn lleol eu bod yn bwysig, ac felly yn hytrach na'u dyrchafu i'w torri ***argymhellaf y dylid eu gadael lle mae***

***nhw ond yn amodol ar gyrraedd targed o leihau'n sylweddol y gost i'r Cyngor o gyfrannu tuag at eu dyfodol.***

Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r gymuned leol gymryd elfen o'r cyfrifoldeb ac ***argymhellaf ymhellach fod y Gwasanaeth yn adrodd yn ol ymhen blwyddyn ar ymdrechion i wneud hynny gan ail ymweld â dyfodol cyfraniad y Cyngor bryd hynny yn wyneb unrhyw gynnydd a wnaed.***

O ran cynllun 85 (Rheoli Traethau) 'roedd yna ymdeimlad ymysg trwch yr aelodau y dylid torri'r rheolaeth ar draethau gyda baner werdd gan fod hyn yn lai o effaith na rhai o'r cynigion eraill ger bron.

Unwaith eto, efallai mai dyna yw barn mwyafrif o'r rhai oedd yn y gweithdai ond mae 38% o bobl Gwynedd wedi nodi eu bod yn dymuno cadw rheolaeth ar y traethau yma, ac mae'n debyg fod yna ddadl os ydym yn rheoli traethau baner las yna pam ddim rhai gwyrdd hefyd.

Yn wyneb maint y swm dan sylw a'r hyn a ddywedodd bobl Gwynedd ynghyd a'i effaith anuniongyrchol ar yr economi dwi'n ***argymell ei fod yn aros yn lle mae o ym mand 6.***

***25.*** **Cynllun Rhif 30 a 109 (Cynnal Ffyrdd)**

Nodwyd yn y gweithdai fod safle cymharol Cynllun rhif 30 yn golygu fod pobl Gwynedd yn derbyn fod angen edrych am doriad yn y gyllideb ffyrdd ond drwy roddi cynllun 109 yn y safle hwnnw 'roeddent hefyd yn rhoi neges glir nad oeddent yn dymuno gweld y toriad yn mynd rhy bell [gan dderbyn mai dim ond dau ddewis a roddwyd].

Fodd bynnag, tra'n derbyn fod torri £1.5m yn glir yn ormodol yn ol barn y cyhoedd, oherwydd ei effaith gymharol a'r ffaith fod modd adennill unrhyw effaith andwyol yn hwyrach drwy'r cynllun asedau, 'roedd yna fwyafrif clir o aelodau yn y gweithdai o'r farn y dylid edrych i'r gyllideb yma am gyfraniad ychydig yn fwy na £0.5m.

'Rwyf yn nodi fy marn ynglyn a hyn yng nghymal 52 isod.

***26.*** **Cynlluniau C1 (Uned Gofal Cwsmer Gwasanaeth Oedolion) a C6 (Uned Cefnogi Pobl)**

'Roedd y rhain yn gynlluniau ymysg y cynlluniau cefnogol na ymgynghorwyd arnynt. Tra'n derbyn fod y mwyafrif o'r cynlluniau hynny yn rai y dylid eu gweithredu oherwydd eu heffaith gymharol ar bobl Gwynedd o'u cymharu gyda'r cynigion eraill oedd dan sylw, nodwyd fod yna resymau penodol lle 'roedd yr effaith ar y ddau gynllun yma yn fwy na ragdybiwyd a thra'n derbyn y cynlluniau eraill, 'roedd yna fwyafrif o blaid tynnu rhai allan o'r toriadau.

***Argymhellaf eu bod yn cael eu tynnu allan o'r rhestr toriadau.***

27. **Cynllun rhif C8 (Frondeg Pwllheli)**

Yn ystod y trafodaethau yn y gweithdai fe godwyd pryder ynglyn a gwagio adeilad Frondeg a'r effaith ar y rhai sy'n defnyddio'r adeilad. Er na lwyddodd i ddenu digon o gefnogaeth i'w dynnu allan o'r toriadau, mae'n rhaid cydnabod y pryder lleol ynglyn a'r effaith ar y defnyddwyr presennol.

***Argymhellaf felly ei fod yn aros yn y toriadau ond gan ofyn i'r Gwasanaeth adrodd yn ol i'r Cabinet ar yr achos busnes cyn symud ymlaen i'w wireddu er mwyn sicrhau fod yna atebion derbyniol i anghenion y rhai sydd yno ar hyn o bryd.***

28. Fe godwyd nifer o faterion eraill yn ystod y gweithdai wrth gwrs ond ni fu iddynt dderbyn cefnogaeth mwyafrif yr aelodau oedd yn bresennol.

29. Hefyd, fe godwyd nifer o sylwadau a bydd angen i'r Cabinet a finnau ystyried y rhain wrth weithredu ar y cynigion terfynol.

30. **Cynllun rhif 17 (Nifer Aelodau)**

Nodwyd yn y gweithdai, oherwydd nad oedd Llywodraeth Cymru bellach am newid yr etholaethau ar gyfer yr etholiad Llywodraeth Leol nesaf, ni fyddai modd i'r Cyngor wireddu'r cynllun yma bellach.

## Asesiad Cydraddoldeb

31. Cyn gwneud penderfyniad mae gan bob unigolyn yn y sector gyhoeddus ddyletswydd i ystyried effaith debygol y penderfyniad ar bobl sydd â nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010).

32. Fe wneir hyn drwy gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynigion.

33. Mae'r holl asesiadau a wnaed ar y cynigion dan sylw i'w gweld yn y ddogfen 'Asesiadau Cydraddoldeb Llawn ar y toriadau posib' sydd ar gael yn:

www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol4-AsesiadauCydraddoldeb

34. Mae Atodiad 2 yn gosod allan trosolwg o'r ddyletswydd a'r asesiadau hynny gan nodi casgliadau ar yr asesiadau eu hunain. Fodd bynnag nid yw trosolwg yn disodli'r angen i aelodau ddarllen yr asesiadau llawn er mwyn rhoi sylw priodol i'r ardrawiadau posibl a chanfyddiadau.

35. Wrth lunio argymhellion o ran yr hyn a gododd yn y gweithdai, 'rwyf wedi defnyddio'r asesiadau. 'Rwyf hefyd wedi eu defnyddio wrth ystyried beth ddylai aros yn y rhestr toriadau.

36. Yn benodol, rwyf yn nodi er bod yr asesiadau cydraddoldeb yn nodi effeithiau perthnasol yng nghynlluniau 19 (Brecwast am ddim i Blant Ysgol); 29 (Gang Cymunedol Arfon); 38 (Glanhau Pentrefi); 40 (Uned Gorfodaeth Tai); 44 (Byw'n Iach); 50 (Uned Grantiau Tai); 51 (Toiledau Cyhoeddus); a 52 (Cyfiawnder Ieuenctid) 'rwyf yn ystyried fod y camau meirioli neu'r effaith gymharol yn golygu y dylid parhau i'w cynnwys yn y toriadau. Fodd bynnag bydd angen bod yn glir ynglyn a'r effaith ar yr henoed wrth ystyried sut i weithredu cynllun 51.

**Y Cynllun Strategol**

*37.* Yn amlwg ni fyddai'n gwneud synnwyr i dorri adnodd sy'n cael ei ddefnyddio i gyflawni blaenoriaethau yn ein Cynllun Strategol.

*38.* 'Rwyf wedi edrych ar y cynigion a nodir ym mandiau 0 i 4 ac ohonynt i gyd mae yna bosibilrwydd cryf y byddai gweithredu cynllun rhif 7 (Adfywio Cymunedol) yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar ein gallu i wireddu'r prosiect **CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**yn ein Cynllun Strategol.

*39.* Byddai cynnwys y cynlluniau a nodir yng nghymal 13 uchod hefyd yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar ein gallu i gyflawni prosiect**T1 Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd; T3 Gwynedd Digidol; T4 Cynllun Arloesi Gwynedd Wledig; T5 Safle Treftadaeth y Byd a T7 Digwyddiadau proffil uchel a strategol**

*40.* Mae yna nifer o gynigion eraill allasai gael ardrawiad anuniongyrchol neu ymylol ar y Cynllun Strategol ond fe ddylid gallu cadw eu hardrawiad i'r isafswm fel nad ydynt yn lleihau'r uchelgais a nodir o fewn y Cynllun hwnnw.

*41.* Mae yna nifer o gynlluniau ym mandiau 6 - 10 allasai ddylanwadu ar y Cynllun Strategol ond gan nad ydym yn ystyried cynnwys y bandiau hynny, nid yw hynny'n berthnasol i'r adroddiad yma.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

*42.* Mae'r Ddeddf yma yn gofyn i ni osod a chyhoeddi amcanion llesiant er mwyn dangos sut yr ydym am gyrraedd saith nod llesiant a nodir o fewn y ddeddf.

*43.* I raddau, mae popeth sydd yn y rhestr toriadau yn mynd i gael ardrawiad i raddau gwahanol ar un o'r saith nod llesiant. O ran yr adroddiad yma, yr hyn sydd angen ei ystyried yw bod gofyn i ni hefyd weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu fod disgwyl i ni weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

*44.* Y cwestiwn dwi wedi ei ofyn felly yw a oes yna ardrawiad mwy i rai cynlluniau i genedlaethau'r dyfodol na sy'n amlwg heddiw pe byddem yn torri unrhyw un

o'r cynigion ym mand 1 i 4. Yn benodol hefyd a yw'n torri ar draws gwaith ataliol.

*45.* Yn amlwg mae'r cynlluniau a nodir yng nghymal 13 uchod yn ymwneud a sicrhau dyfodol economaidd y sir ac yn hynny o beth, mae'n debyg fod eu hardrawiad posibl fwy yn y dyfodol na'r presennol.

*46.* Yn yr un modd, fel y nodir yng nghymal 14 uchod byddai dilyn trywydd "y bleidlais" yn golygu na fyddai yna unrhyw gymorth i'r celfyddydau yng Ngwynedd i'r dyfodol a thra'n nodi y byddai'r ardrawiad yn cael ei deimlo nawr, byddai ei effaith cronnus yn gallu golygu effaith gwaeth i genedlaethau'r dyfodol.

*47.* Fe allasai'r elfen ataliol sydd ynghlwm a chynlluniau 19 (Brecwast am ddim) 20 (Teledu Cylch Cyfyng) 44 (Rhaglenni byw'n iach) fod ag effaith mwy i'r dyfodol na'r hyn a nodir heddiw ond os ystyried y dewisiadau eraill nid wyf yn ystyried fod hynny yn reswm i dynnu allan cynlluniau 19 na 44. Gyda chynllun 19 fodd bynnag bydd angen bod yn ofalus sut y'i gweithredir i sicrhau fod y rhai yr anelwyd y cynllun ar ei gyfer yn parhau i dderbyn y budd.

**Casgliadau ac argymhellion**

*48.* Ar sail y rhesymeg a nodir uchod felly byddai hyn yn golygu ein bod yn cyfarch y bwlch ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf drwy weithredu'r toriadau canlynol –

| | **£** |
|---|---:|
| Holl gynlluniau band "0" heblaw C1, C6 a C17 | 1,066,300 |
| Holl gynlluniau band 1 heblaw 7 ac 18 | 910,520 |
| Holl gynlluniau band 2 heblaw 24 | 1,166,000 |
| Holl gynlluniau band 3 heblaw 34,35,36 a 41<br>**a** lleihau'r cynnydd uchafswm yng nghynllun 33 i £2.50 | 511,000 |
| Holl gynlluniau band 4 heblaw 45, 54, 56, 57 a'r elfen doriadau o 55 | 802,080 |
| Cynlluniau 63,65 a 71 o fand 5 | 135,000 |
| **Cyfanswm** | **4,590,900** |

*49.* Yn amlwg, nid yw'r swm yma yn ddigonol i gyfarch y bwlch ariannol o £5.507m.

*50.* Yn yr adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet ar yr adolygiad strategol o'r Gwasanaeth Priffyrdd fe welir beth yw goblygiadau gwahanol lefelau o doriadau ar y maes.

*51.* Fel y nodwyd ym mharagraff 24 uchod 'roedd yna fwyafrif clir o aelodau yn y gweithdai o'r farn y dylid edrych i'r gyllideb yma am gyfraniad ychydig yn fwy na'r £0.5m sydd ym Mand 2.

*52.* Yn wyneb yr hyn sy'n ymddangos yn yr adolygiad strategol o ran effaith ***argymhellaf y dylid torri £350,000 yn fwy ar y gyllideb ffyrdd gan gynllunio i'w ad-ennill wrth baratoi'r Cynllun Asedau nesaf.***

*53.* Byddai hyn yn gadael bwlch o £566,100.

*54.* Yr ateb amlwg fyddai mynd i lawr band 5 am y swm drwy gynnwys cynlluniau rhif 59 (Neuadd Dwyfor); 60 (Lleihau 8.5% ar y gyllideb cludiant cyhoeddus); 61 (Cau 3 Canolfan Ailgylchu); 62 (Cau 2 Ganolfan Hamdden); a 64 (Dileu'r holl gyllideb ar gyfer mudiadau gwirfoddol i gyflawni projectau penodol).

*55.* Credaf y byddai hyn yn mynd yn gam rhy bell os gellir ei osgoi o gwbl.

**Treth Gyngor**

*56.* 'Roedd barn bobl Gwynedd yn weddol ranedig o ran y cwestiwn a ddylid cynyddu'r Dreth Gyngor yn fwy er mwyn gwarchod gwasanaethau gyda 45% yn nodi y dylem a 55% yn erbyn.  Diddorol yw nodi mai i'r gwrthwyneb oedd barn bobl hyn.

*57.* Tra'n derbyn y bydd rhai yn gallu ateb y cwestiwn yma mewn termau haniaethol, mae'n debyg fod yr ateb i'r cwestiwn gan nifer yn mynd i fod yn ddibynnol ar yr hyn sydd yn cael ei dorri ac a yw'n effeithio'n uniongyrchol ar y sawl sy'n ateb.  Lle ni fel aelodau yw ceisio sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau hanfodol i'r gorau o'n gallu yn enwedig i'r rhai mwyaf bregus.

***58.*** Yn hynny o beth felly 'rwyf yn argymell yn hytrach na gwireddu'r toriadau yma o fand 5 ein bod yn cyfarch gweddill y bwlch drwy gynyddu'r dreth gyngor uwchben y 3.5% cynlluniedig.

**59.** Mae £566,100 yn gyfystyr a chynnydd o 0.98% ar y dreth gyngor dros 2 flynedd (sy'n cyfateb i +0.47% y flwyddyn) ac ***argymhellaf felly y dylid cynyddu'r Dreth Gyngor yn 2016/17 i 3.97% gan gynllunio i godi ffigwr 3.97% yn 2017/18 er mwyn cyfarch y bwlch.***

**Amrywiol faterion eraill**

**60.** Wedi dweud hynny, 'roedd yna deimladau gan nifer yn y gweithdai y dylai cynllun 59 (Neuadd Dwyfor) gael ei gynnwys gan mai hon fydd yr unig theatr /sinema sy'n cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd gyda chymunedau eraill yn gorfod rhedeg eu sefydliadau eu hunain.

*61.* Yn unol â'r sylwadau a nodir ar gyfer y pontydd a roddir yng nghymal 23 uchod, mae'n rhaid i ni dderbyn fod y sefydliad yma yn bwysig i gymuned yr ardal ond rhaid bod yn fyw hefyd i'r her a nodwyd ar gyfer y pontydd sef a yw'n briodol gofyn i holl drethdalwyr Gwynedd ei ariannu'n llwyr.

***62.*** Yn wyneb hyn ***argymhellaf yn hytrach na'i gynnwys yn y toriadau y dylid gofyn i'r Gwasanaeth drafod opsiynau ar gyfer unrhyw fudiad lleol***

***gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd gan ddisgwyl adroddiad yn ol ymhen blwyddyn ac y dylid ail ymweld wedyn yn sgil yr ymateb lleol.***

***63.*** **Mae'n bwysig nodi hefyd wrth gwrs nad yw'r ffaith fod cynlluniau yn ymddangos ym mandiau 5-10 sydd yn osgoi cael eu torri yn golygu na fydd yna newidiadau yn effeithio arnynt.**

***64.*** **Mae yna nifer o gynlluniau effeithlonrwydd mewn amrywiol feysydd sydd yn arwain at arbedion o £13.6m dros y 4 blynedd nesaf fydd angen eu cyflawni er mwyn sicrhau cyllideb hafal, ac fe fydd gwireddu'r cynlluniau yma hefyd yn golygu newid o fewn y gwasanaethau hynny.**

**Gweithredu**

***65.*** Wedi i'r Cyngor osod y gyllideb bydd angen mynd ymlaen i weithredu'r rhaglen o doriadau. Mae rhai o'r cynigion yn nodi y bydd angen asesu opsiynau a lle mae hynny'n berthnasol, bydd angen sicrhau fod unrhyw ddyletswyddau neu ofynion statudol penodol yn cael eu cyfarch wrth ddatblygu'r cynigion manwl. Mae rhai camau yn ddarostyngedig i brosesau cytundebol a bydd angen cyfarch rhain hefyd.

***66.*** Ble cyfyd gofyn penodol i ymgynghori ymhellach ar fater bydd y gweithredu ar y cynnig yn ddarostyngedig i ganlyniadau'r broses honno. Bydd yr asesiadau ardrawiad yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ol yr angen wrth symud y rhaglen ymlaen.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Awdur yr adroddiad

**Y Swyddog Monitro:**

Yn dilyn proses ymgynghori gyhoeddus sylweddol a chraffu mae'r adroddiad yn adnabod rhaglen o doriadau y bwriedir fydd yn sail ar gyfer creu cyllideb hafal. Bydd rhaid i'r Cabinet wrth symud ymlaen wedyn i weithredu dilyn a chyfarch unrhyw ofynion cyfreithiol manwl sydd yn berthnasol i wireddu'r rhaglen. Crynhoi'r yr ystyriaeth sydd wedi ei roi i'r Asesiadau Ardrawiad Cydraddoldeb wrth ffurfio'r argymhellion yn y ddogfen drosolwg. Wrth ddod i gasgliad, fodd bynnag mae'n bwysig fod yr aelodau yn cyfeirio at yr asesiadau cyflawn sydd ar gael iddynt.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet Adnoddau a'r Prif Weithredwr ar yr adroddiad hwn, ac yn cymeradwyo ei gynnwys

---

**Dogfennau Cefndir**

Pecyn 1 – Crynodeb o doriadau posibl a barn y cyhoedd arnynt:
www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol1-Crynodeb

Pecyn 2 – Gohebiaeth/ Sylwadau ar y toriadau posibl:
www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol2-Gohebiaeth

Pecyn 3 – Canlyniadau'r broses canfod barn bobl Gwynedd ar y toriadau posibl:
www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol3-Canlyniadau

Dogfen gyhoeddus – Canlyniadau arolwg barn gyhoeddus Her Gwynedd:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Her-Gwynedd.aspx

Asesiadau Cydraddoldeb Cynlluniau Her Gwynedd:
www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol4-AsesiadauCydraddoldeb

## Atodiad 1

## Band “0” – Gwasanaethau Cefnogol eu natur

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | Swm |
|---|---|---|---|---|
| C1 | Dileu 2 swydd allan o 4 yn yr Uned Gofal cwsmer o fewn y gwasanaeth oedolion | 124 | 429 | 85,000 |
| C2 | Dileu 2 swydd allan o 7.5 yn yr Uned cefnogi Systemau o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 125 | 435 | 80,000 |
| C3 | Dileu 3 swydd allan o 20.6 yn yr Uned Cefnogi Gweithlu sy’n gwasanaethu oedolion a phlant | 126 | 440 | 90,000 |
| C4 | Dileu 2 swydd allan o 10.5 yn yr Uned datblygu gweithlu o fewn y Gwasanaeth oedolion | 127 | 445 | 75,000 |
| C5 | Dileu 1 swydd allan o 2.5 yn y maes Rheolaeth a Strategaeth Tai | 128 | 450 | 37,500 |
| C6 | Dileu 1 swydd allan o 2.5 yn yr Uned Cefnogi Pobl o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 129 | 457 | 34,000 |
| C7 | Dileu 1 swydd allan o 3 yn yr Uned Gwasanaeth Gwybodaeth sy’n delio gyda’r Ddeddf Diogelu data a’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth | 130 | 463 | 30,000 |
| C8 | Cau adeiladau Frondeg Pwllheli ac Adeilad Ffordd y Traeth yn y Felinheli | 132 | 468 | 60,000 |
| C9 | Dileu 1 swydd allan o 8.5 yn yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau | 133 | 474 | 28,000 |
| C10 | Dileu 1.5 swydd allan o 7.2 yn yr Uned Stadau a Chyfleusterau | 134 | 479 | 40,000 |
| C11 | Dileu 2 swydd allan o 37.62 yn yr Unedau Cyfrifeg | 135 | 484 | 50,000 |
| C12 | Rhoi’r gorau i gefnogaeth yr Uned Technoleg | 136 | 488 | 39,500 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | Swm |
|---|---|---|---|---|
| | Gwybodaeth i systemau y tu allan i oriau gwaith arferol | | | |
| C13 | Dileu Cynllun Hyfforddeion Gwynedd a Chynllun Hyfforddeion Proffesiynol | 137 | 496 | 258,720 |
| C14 | Dileu 2 swydd allan o 8.8 yn yr uned Iechyd a Diogelwch | 138 | 500 | 80,000 |
| C15 | Ail fodelu'r partneriaethau rhwng Gwynedd a Môn yn sgil y newid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | 139 | 505 | 130,000 |
| C16 | Dileu cyfraniad y Cyngor i Bartneriaeth Amgylchedd Gwynedd | 140 | 510 | 7,620 |
| C17 | Lleihau nifer yr aelodau yn yr etholiad nesaf | 141 | 516 | 120,000 |
| C18 | Dileu cyllideb ar gyfer cefnogi gwaith alcohol a chyffuriau | 142 | 522 | 28,900 |
| C19 | Dileu 1 swydd allan o 2 yn y maes Rheolaeth Prosiect | 143 | 532 | 31,060 |
| | | **Cyfanswm Band "0"** | | **1,305,300** |

## Band 1

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 [97] | Torri gwair prif lecynnau trefi 6 gwaith y flwyddyn yn hytrach nag 8 gwaith | 5 | 6 | 3.5 | 120,000 |
| 2 [17] [67] | Dileu 1 swydd allan o 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 6 | 12 | 4.2 | 15,000 |
| 3 [57] | Lleihau cyllideb grantiau strategol i'r celfyddydau o 50% | 9 | 18 | 7.5 | 84,850 |
| 4 [35] [94] | Torri 2 swydd allan o 7 yn yr Uned Gwasanaeth gorfodaeth stryd | 11 | 25 | 7.5 | 64,500 |
| 5 [92] | Lleihau oriau agor Archifdy Dolgellau o 3 diwrnod i 2 ac Archifdy Caernarfon o 4 i 3 diwrnod yr wythnos | 13 | 31 | 8.0 | 41,670 |
| 6 [105] | Torri gwair y 131 o feysydd chwarae plant bob deufis yn hytrach nag yn fisol | 15 | 6 | 8.6 | 60,000 |
| 7 [69] | Dileu 2 swydd allan o 6 yn yr Uned Adfywio Cymunedol | 16 | 38 | 9.0 | 75,000 |
| 8 | Lleihau elfen o gyllideb "Gwynedd Ni" gan ganolbwyntio ar yr elfen statudol. | 18 | 44 | 9.1 | 70,000 |
| 9 | Dileu 1 swydd allan o 27.7 yn yr Uned Prosesu Treth Gyngor | 19 | 51 | 9.2 | 25,000 |
| 10 [81] | Torri 50% ar y gwasanaeth cynnal | 20 | 56 | 9.2 | 40,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| | promenadau, meinciau ac enwau strydoedd | | | | |
| 11 [56] [58] | Peidio darparu copïau caled o'r llyfryn twristiaeth "Eryri Mynyddoedd a Môr" | 21 | 355 | 9.3 | 46,000 |
| 12 [64] | Lleihau 50% ar y grantiau a roddir i fudiadau gwirfoddol ar gyfer prosiectau penodol | 22 | 68 | 9.6 | 62,500 |
| 13 | Peidio talu'r ffi am dalu Treth Gyngor yn y swyddfa bost | 24 | 74 | 9.6 | 40,000 |
| 14 | Lleihau amlder torri gwair ym mynwentydd y Cyngor o 7 gwaith y flwyddyn i 5 | 25 | 79 | 10.4 | 60,000 |
| 15 [39] [98] | Torri 10% ar y gyllideb prynu llyfrau yn y llyfrgelloedd | 26 | 84 | 10.5 | 26,000 |
| 16 | Dileu 1 swydd allan o 14 yn yr uned Rheolaeth Adeiladu | 28 | 90 | 10.6 | 40,000 |
| 17 [2] [67] | Dileu ail swydd o'r 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd. | 6 | 12 | 11.4 | 15,000 |
| 18 [77] | Dileu 2 swydd allan o 4.4 yn yr Uned Prosiectau Strategol o fewn y maes Datblygu'r Economi | 29 | 94 | 11.4 | 133,230 |
| 19 [86] | Lleihau amser / a neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd | 31 | 100 | 11.8 | 100,000 |
| | | | **Cyfanswm Band 1** | | **1,118,750** |

## Band 2

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 20 [96] | Cadw’r Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ond dileu’r adnodd sy’n cadw golwg parhaus arno. | 33 | 106 | 12.0 | 90,000 |
| 21 [80] | Dileu 1 swydd allan o 2.45 yn yr Uned Bioamrywiaeth | 35 | 112 | 12.1 | 30,000 |
| 22 [102] | Lleihau 50% ar y gyllideb rheoli traffig | 37 | 117 | 12.5 | 65,000 |
| 23 [73] [114] | Dileu 20% ar y gyllideb llwybrau cyhoeddus yn cynnwys 1 swydd allan o 7.2 | 39 | 122 | 13.0 | 110,000 |
| 24 | Dileu’r Uned Celfyddydau Cymunedol gan gynnwys yr holl grantiau a roddir | 42 | 129 | 13.2 | 85,910 |
| 25 [101] | Dileu 1 swydd allan o 8 yn yr Uned Rheoli Llygredd | 44 | 137 | 13.4 | 35,000 |
| 26 | Dileu grant canolfan Noddfa | 46 | 143 | 13.7 | 5,000 |
| 27 [95] | Dileu 1 swydd allan o 13.8 yn yr Uned Hylendid Bwyd | 47 | 148 | 14.2 | 36,000 |
| 28 | Dileu 1 swydd allan o 21.7 yn yr Uned Budd-daliadau Tai a threth Gyngor | 49 | 154 | 14.8 | 25,000 |
| 29 | Dileu Gwasanaeth gang cymunedol Arfon | 51 | 165 | 15.5 | 70,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 [109] | Torri 7% ar y gyllideb cynnal ffyrdd | 52 | 171 | 15.7 | 500,000 |
| 31 [74] [89] [103] | Cau 30 allan o'r 42 Clwb Ieuenctid a darparu llai o brosiectau ieuenctid | 54 | 177 | 15.9 | 200,000 |
| | | **Cyfanswm Band 2** | | | **1,251,910** |

## Band 3

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 32 | Rhoi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George | 58 | 194 | 16.2 | 27,000 |
| 33 [115] | Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £3.00 | 59 | 201 | 16.4 | 600,000 |
| 34 [90] | Torri 10% ar y Gwasanaeth Cefnogol a roddir i blant drwy Derwen | 61 | 2047 | 16.7 | 75,000 |
| 35 [4] [94] | Torri 3 swydd allan o 7 yn yr Uned Gorfodaeth Stryd | 11 | 25 | 17.2 | 28,000 |
| 36 | Dod a'r uned Ardal Harddwch naturiol Llŷn i ben | 63 | 218 | 17.9 | 39,150 |
| 37 [65] [79] [112] | Dileu 2 swydd allan o 85 yn yr Uned Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Gofal o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 65 | 159 | 18.1 | 80,000 |
| 38 | Lleihau amlder glanhau pentrefi a stadau diwydiannol i bob 3 mis yn hytrach na bob mis a chynyddu amser ymateb i ddigwyddiadau | 67 | 165 | 18.3 | 130,000 |
| 39 [15] [98] | Lleihau'r gyllideb lyfrau yn y llyfrgelloedd o 25%. | 26 | 84 | 18.6 | 39,000 |
| 40 | Dileu 1 swydd allan o 12 yn yr Uned | 68 | 225 | 19.2 | 30,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gorfodaeth Tai | | | | |
| 41 | Dileu'r Uned Cefnogi Busnes | 70 | 230 | 19.4 | 93,390 |
| 42 | Lleihau 12.4% ar y gyllideb o £801,790 a delir gan y Gwasanaeth Oedolion i sefydliadau gwirfoddol / elusennol. | 71 | 235 | 19.4 | 100,000 |
| | | **Cyfanswm Band 3** | | | **1,241,540** |

## Band 4

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 43 [99] | Dileu 10% o'r gyllideb Gwasanaeth Plant Derwen (sy'n cyflogi 19.4) | 73 | 241 | 19.8 | 75,000 |
| 44 | Dileu rhaglenni byw'n iach | 75 | 256 | 20.9 | 54,050 |
| 45 | Dileu'r adnodd cefnogi digwyddiadau | 77 | 335 | 21.1 | 37,000 |
| 46 | Dileu'r gyllideb ar gyfer cynnal y Gwarchodfeydd Natur | 78 | 264 | 21.3 | 59,400 |
| 47 | Dileu cyllideb prosiectau diogelwch cymunedol a thrais yn y cartref | 79 | 271 | 22.0 | 24,250 |
| 48 [85] [113] | Rheoli traethau baner las a baner werdd yn unig | 80 | 277 | 22.4 | 24,200 |
| 49 | Dileu 1 swydd allan o 7.7 ar reoli risgiau llifogydd. | 82 | 285 | 23.2 | 40,000 |
| 50 [104] | Dileu 1 swydd allan o 7 yn yr Uned sy'n rheoli grantiau adnewyddu a grantiau i'r anabl | 83 | 290 | 23.3 | 30,000 |
| 51 [111] | Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y sir | 85 | 295 | 23.4 | 244,000 |
| 52 | Dileu 1 swydd allan o 21 yn y Gwasanaeth aml asiantaethol Cyfiawnder Ieuenctid. | 87 | 302 | 23.7 | 25,000 |
| 53 | Dileu rhaglenni datblygu chwaraeon | 88 | 307 | 23.9 | 71,180 |
| 54 | Dileu grantiau i fudiadau ieuenctid | 89 | 68 | 23.9 | 71,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 55 [82] [100] [107] [116] | Cynnal 9 prif lyfrgell a sefydlu cyfuniad o ddolenni cymunedol a llyfrgelloedd cymunedol mewn 8 cymuned | 90 | 325 | 24.1 | 28,290 |
| 56 [11] [58] | Dileu'r Gwasanaeth Marchnata a Thwristiaeth | 93 | 335 | 24.8 | 184,770 |
| 57 [3] | Dileu'r holl grantiau strategol i'r celfyddydau | 9 | 18 | 25.3 | 84,850 |
| 58 [11] [56] | Cau canolfannau Croeso'r Cyngor | 95 | 335 | 25.5 | 155,000 |
| | | **Cyfanswm Band 4** | | | **1,207,990** |

## Band 5

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 59 | Cau Neuadd Dwyfor | 96 | 342 | 25.7 | 98,000 |
| 60 [84] [110] | Lleihau 8.5% ar y gyllideb cludiant cyhoeddus | 98 | 350 | 25.8 | 100,000 |
| 61 [91] [117] | Cau 3 allan o'r 8 Ganolfan Ailgylchu | 100 | 357 | 26.1 | 180,000 |
| 62 [88] [106] [118] | Cau 2 allan o'r 12 Canolfan Hamdden | 102 | 362 | 26.9 | 137,960 |
| 63 | Dileu 1 swydd allan o 7 ar reolaeth gwaith ffyrdd | 106 | 372 | 27.6 | 30,000 |
| 64 [12] | Dileu'r holl gyllideb ar gyfer y grantiau a roddir i fudiadau gwirfoddol ar gyfer prosiectau penodol | 22 | 315 | 28.1 | 67,500 |
| 65 [37] [79] [112] | Dileu 4 swydd allan o 85 yn yr Uned Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Gofal o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 65 | 159 | 28.2 | 80,000 |
| 66 | Dileu cyfraniad i Gymorth i Ferched | 107 | 377 | 28.6 | 53,000 |
| 67 [2] [17] | Dileu trydedd swydd o'r 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd | 6 | 12 | 28.9 | 15,000 |
| 68 | Lleihau 30% ar yr oriau y mae'r Gwasanaeth Plant yn ei roi i gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 21 oed | 109 | 383 | 29.3 | 100,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 69 [7] | Dileu'r Uned Adfywio Bro a rheolaeth rhaglenni adfywio cymunedol | 16 | 38 | 29.6 | 131,000 |
| 70 | Lleihau amlder glanhau canol trefi a chanolfannau siopa o ddyddiol i bob deuddydd | 111 | 165 | 30.3 | 80,000 |
| 71 | Dileu 1 swydd allan o 21.4 yn yr Uned Digartrefedd | 112 | 389 | 31.0 | 25,000 |
| 72 | Peidio talu i Network Rail am gynnal Pont Abermaw | 113 | 395 | 32.3 | 30,800 |
| 73 [23] [114] | Dileu 40% o'r gyllideb llwybrau cyhoeddus gan gynnwys dileu 2 swydd allan o 7 | 39 | 122 | 32.4 | 110,000 |
| | | **Cyfanswm Band 5** | | | **1,238,260** |

## Band 6

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 74 [31] [89] [103] | Cau pob un o'r clybiau Ieuenctid a darparu llai o brosiectau ieuenctid | 54 | 177 | 32.9 | 100,000 |
| 75 | Dileu cyfraniad at swydd atal trais yn y cartref | 114 | 400 | 33.3 | 9,750 |
| 76 | Dileu'r Gwasanaeth llyfrgell deithiol | 115 | 406 | 34.0 | 30,000 |
| 77 [18] | Dileu'r Uned sy'n ymwneud a phrosiectau strategol economaidd yn gyfan gwbl | 29 | 94 | 34.6 | 133,230 |
| 78 | Cau Pont yr Aber, Caernarfon i gerddwyr | 116 | 413 | 35.4 | 54,000 |
| 79 [37] [65] [112] | Dileu 6 swydd allan o 85 yn yr Uned Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Gofal o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 65 | 159 | 35.8 | 80,000 |
| 80 [21] | Dileu'r holl wasanaeth bioamrywiaeth | 35 | 112 | 36.1 | 30,000 |
| 81 [10] | Dileu'r holl wasanaeth cynnal promenadau, meinciau ac enwau strydoedd | 20 | 56 | 36.9 | 40,000 |
| 82 [55] [100] [107] [116] | Cadw 9 llyfrgell a chau 8 ohonynt | 90 | 325 | 37.6 | 59,710 |
| 83 | Dileu cyllideb cynnal y lonydd glas (lonydd beics) | 117 | 264 | 37.6 | 89,090 |
| 84 | Lleihau 17% ar y | 98 | 350 | 37.7 | 100,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| [60] [110] | gyllideb cludiant cyhoeddus | | | | |
| 85 [48] [113] | Rheoli traethau baner las yn unig | 80 | 277 | 38.0 | 31,500 |
| 86 [19] | Dileu brecwast am ddim yn ein ysgolion cynradd | 31 | 100 | 38.7 | 400,000 |
| 87 | Dileu 2 swydd gweithiwr cymdeithasol plant allan o 36.5 | 119 | 418 | 39.3 | 80,000 |
| | | **Cyfanswm Band 6** | | | **1,237,280** |

## Band 7

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 88 [62] [106] [118] | Cau 3 canolfan hamdden allan o'r 12 | 102 | 362 | 39.6 | 99,130 |
| 89 [31] [74] [103] | Cau pob Canolfan a chlwb Ieuenctid a dod a phrosiectau ieuenctid i ben | 54 | 177 | 39.6 | 300,000 |
| 90 [34] | Lleihau 20% yn y gwasanaeth cefnogol a roddir i blant drwy Derwen | 61 | 241 | 39.8 | 75,000 |
| 91 [61] [117] | Cadw 3 Canolfan Ailgylchu yn unig a chael 4 arall yn agor un penwythnos y mis gan gau un | 100 | 357 | 39.8 | 50,000 |
| 92 [5] | Canoli Gwasanaeth archifau Gwynedd yng Nghaernarfon a lleihau oriau agor i 3 diwrnod yr wythnos | 13 | 31 | 40.5 | 26,050 |
| 93 | Dileu'r Cynllun gofalwyr ifanc | 121 | 424 | 40.5 | 34,000 |
| 94 [4] [35] | Dileu'r holl wasanaeth gorfodaeth stryd | 11 | 25 | 40.9 | 207,650 |
| 95 [27] | Dileu ail swydd allan o 13.8 yn yr Uned Hylendid Bwyd | 47 | 148 | 41.8 | 36,000 |
| 96 [20] | Dileu'r Gwasanaeth teledu cylch cyfyng yn gyfangwbl | 33 | 106 | 42.0 | 118,000 |
| 97 [1] | Dileu'r Gwasanaeth torri gwair ar gyfer prif lecynnau trefi | 5 | 6 | 42.4 | 160,000 |
| 98 | Lleihau 50% ar y | 26 | 84 | 43.0 | 65,000 |

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| [15]<br>[39] | gyllideb prynu llyfrau yn y llyfrgelloedd | | | | |
| 99<br>[43] | Dileu 20% o'r gyllideb Gwasanaeth Derwen i Blant (sy'n cyflogi 19) | 73 | 241 | 43.5 | 75,000 |
| | | **Cyfanswm Band 7** | | | **1,245,830** |

## Band 8

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 100 [55] [82] [107] [116] | Lleihau oriau agor y 9 llyfrgell y byddem yn eu cadw yn ogystal â chau'r 8 arall | 90 | 325 | 43.7 | 31,000 |
| 101 [25] | Dileu 2 swydd allan o 8 yn y maes rheoli llygredd | 44 | 137 | 43.8 | 35,000 |
| 102 [22] | Dileu'r holl gyllideb rheoli traffig | 37 | 117 | 46.2 | 65,000 |
| 103 [31] [74] [89] | Dileu'r holl wasanaeth Ieuenctid | 54 | 185 | 46.8 | 219,310 |
| 104 [50] | Dileu 2 swydd allan o 7 yn yr Uned sy'n rheoli grantiau adnewyddu a grantiau i'r anabl | 83 | 290 | 47.7 | 30,000 |
| 105 [6] | Dileu'r holl wasanaeth o dorri gwair mewn meysydd chwarae | 15 | 6 | 47.7 | 160,000 |
| 106 [62] [88] [118] | Cau 5 o'r 12 Canolfan Hamdden | 102 | 362 | 49.3 | 139,640 |
| 107 [55] [82] [100] [116] | Cadw 9 llyfrgell ar oriau agor llai a lleihau nifer y gweithgareddau hyrwyddo darllen | 90 | 325 | 51.0 | 43,000 |
| 108 | Diddymu'r ddarpariaeth o 2,000 o finiau stryd a baw cwn | 123 | 165 | 51.4 | 200,000 |
| | | **Cyfanswm Band 8** | | | **922,950** |

### Band 9

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen … | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 109 [30] | Lleihau 21% ar y gyllideb cynnal ffyrdd | 52 | 171 | 52.0 | 1,000,000 |
| 110 [60] [84] | Torri 25% ar y gyllideb cludiant cyhoeddus | 98 | 350 | 52.1 | 100,000 |
| | | **Cyfanswm Band 9** | | | **1,100,000** |

## Band 10

| Rhif | Toriad posib | Manylion Pellach Pecyn 1 – Rhif Tudalen… | Asesiad Cydraddoldeb Pecyn 4 – Rhif Tudalen… | % am warchod rhag | Swm |
|---|---|---|---|---|---|
| 111 [51] | Cau pob un o doiledau cyhoeddus y sir | 85 | 295 | 52.2 | 374,000 |
| 112 [37] [65] [79] | Dileu 9 swydd allan o 85 yn yr Uned Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Gofal o fewn y Gwasanaeth Oedolion | 65 | 159 | 55.4 | 120,000 |
| 113 [48] [85] | Dileu'r holl wasanaeth o reoli traethau | 80 | 277 | 55.7 | 26,200 |
| 114 [23] [73] | Dileu 60% o'r gyllideb llwybrau cyhoeddus gan gynnwys 4 swydd allan o 7 | 39 | 122 | 58.6 | 110,000 |
| 115 [33] | Peidio darparu cinio ysgol poeth mewn ysgolion cynradd | 59 | 201 | 59.7 | 180,000 |
| 116 [55] [82] [100] [107] | Cadw 9 llyfrgell yn unig ar oriau agor llai gan ddileu holl weithgareddau eraill | 90 | 325 | 62.5 | 33,350 |
| 117 [61] [91] | Cau 5 allan o'r 8 Canolfan Ailgylchu | 100 | 357 | 66.6 | 363,000 |
| 118 [62] [88] [106] | Dileu pob un canolfan Hamdden | 102 | 362 | 67.9 | 469,380 |
| | | **Cyfanswm Band 10** | | | **1,675,930** |

# Atodiad 2 - Trosolwg o'r asesiadau effaith cydraddoldeb

**1.0 Dyletswydd wrth wneud penderfyniad**

1.1 Cyn gwneud penderfyniad, mae gan bob unigolyn yn y sector gyhoeddus ddyletswydd i ystyried effaith debygol y penderfyniad ar bobl sydd â nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Deddfa Cydraddoldeb 2010).

1.2 Mae'r ddeddf yn gwarchod pobl gyda'r nodweddion canlynol:

- Anabledd
- Oedran
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd

1.3 Dyletswydd Gyffredinol y Sector Gyhoeddus

Mae dyletswydd gyffredinol ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried sut y gallwn gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach, trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Rhaid felly rhoi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

1.4 Y Ddyletswydd Benodol

Sefydlwyd y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011. Yn yr achos yma'r dyletswyddau perthnasol yw:

- yr angen i ymgysylltu gyda phobl sydd hefo'r nodweddion uchod
- yr angen i asesu effaith debygol polisïau ac arferion arfaethedig ar y gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol

1.5 Mae asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei baratoi ar gyfer pob un o'r cynigion toriadau. Mae'r rhain ar gael yn www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol4-AsesiadauCydraddoldeb. Nid yw'r trosolwg yma yn disodli yr angen i roi sylw penodol i

gynnwys yr asesiadau yma na'u canfyddiadau a disgwylir i aelodau roi ystyriaeth i'r asesiadau llawn.

## 2.0 Y Mesur Iaith

2.1 Mae'r Safonau Iaith yn gofyn inni ystyried effaith ein penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg. Rydym wedi gwneud hynny fel rhan o'r asesiadau effaith cydraddoldeb.

## 3.0 Ystyriaethau wrth wneud penderfyniad

3.1 Mae'r adroddiad yma'n cynnig trosolwg yn unig o'r effeithiau sydd wedi'u hadnabod yn yr asesiadau effaith cydraddoldeb ar bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig gwahanol.

3.2 Mae'n bwysig ystyried yr effaith y byddai ystod o doriadau, nid yn unig toriadau unigol, yn ei gael ar yr un garfan o bobl.

3.3 Un ffactor yw'r asesiad effaith cydraddoldeb, mae'n rhaid cofio bod ffactorau eraill i'w hystyried hefyd, yn arbennig y sefyllfa ariannol.

3.4 Bydd rhai o'r toriadau yn cael effaith negyddol ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig penodol. Er hynny, nid yw asesiadau effaith cydraddoldeb negyddol ynddynt eu hunain yn rheswm dros beidio â gwneud penderfyniad anodd. Beth sy'n bwysig yw bod angen rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith cyn gwneud penderfyniad.

3.5 Mae'r asesiadau effaith cydraddoldeb yn cynnwys camau i liniaru'r effaith pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i dorri gwasanaeth.

3.6 Er nad yw tlodi yn nodwedd cydraddoldeb gwarchodedig, mae perthnasedd cryf rhwng amddifadedd a phobl sydd â rhai nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig.

3.7 Rhaid ystyried yr effaith y gall y toriadau eu cael ar ardaloedd penodol e.e. os oes nifer o wasanaethau'n cael eu torri mewn ardaloedd gwledig, pa effaith fydd hynny yn ei gael ar garfannau megis pobl ifanc neu bobl hŷn?

3.8 Dylid ystyried effeithiau hir dymor unrhyw doriad. Gofynnir a ydi lleihau neu ddileu gwasanaeth am arbed arian yn y tymor byr ond am arwain at gynnydd tebygol yn y galw am wasanaeth arall yn y dyfodol.

## 4.0 Canfyddiadau cyffredinol

4.1 Mae'r asesiadau effaith cydraddoldeb yn dangos fod rhai nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig yn cael eu heffeithio yn fwy nag eraill, yn benodol anabledd, oedran (pobl ifanc a phobl hŷn), a'r iaith Gymraeg.

4.2 Mae'r asesiadau effaith cydraddoldeb hefyd yn dangos bod rhai cynigion toriadau yn debygol o gael effaith ar sawl nodwedd cydraddoldeb gwarchodedig.

4.3 Nid oes unrhyw batrwm clir wedi ei adnabod gyda nodwedd cydraddoldeb gwarchodedig Priodas a Phartneriaeth Sifil.

**5.0 Canfyddiadau fesul prif nodweddion cydraddoldeb**

5.1 Canolbwyntir isod ar dair prif nodwedd cydraddoldeb gwarchodedig sy'n cael eu heffeithio fwyaf, sef anabledd, oedran (pobl ifanc a phobl hŷn), a'r iaith Gymraeg. O fewn y rhain, rhestrir y cynigion toriadau ble mae'r asesiadau effaith cydraddoldeb wedi amlygu'r effeithiau mwyaf. Nodir hefyd gamau posib y gellir eu cymryd i leihau neu wella effeithiau'r cynigion toriadau. Rhestrir cynigion toriadau yn ôl eu cyfeirnodau.

**6.0 Anabledd**

6.1 Wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar pobl anabl rhaid cofio'r angen i roi "sylw priodol" i'w hanghenion ac i wneud addasiadau rhesymol.

6.2 Mae rhai o'r cynigion toriadau ar wasanaethau sy'n ymwneud â phobl a phlant anabl yn amlwg, ond bydd rhai eraill hefyd yn cael effaith arnynt. Gallai nifer o'r cynigion arwain at ddirywiad yn yr amgylchedd, ac yn benodol ei hygyrchedd a'i ddiogelwch i bobl anabl. Byddai hyn yn cynnwys mynediad i'r wlad neu'r gallu i symud yn hawdd o amgylch pentref neu dref.

6.3 Dywedodd pobl anabl wrthym am y pwysigrwydd o wasanaethau fel cludiant cyhoeddus, toiledau a meinciau cyhoeddus sy'n eu caniatáu i fod allan yn y gymuned. Mae cynigion toriadau sy'n effeithio ar gadw'n iach a hamddena hefyd am gael effaith ar bobl anabl.

6.4 Mae'n bwysig ystyried i ba raddau y bydd y cynigion toriadau yn cael effaith sy'n golygu gostyngiad mewn ansawdd bywyd. Mae rhai o'r gwasanaethau dan sylw wedi cael eu hadnabod fel rhai sy'n hybu annibyniaeth drwy roi cyfleoedd i gadw'n iach, cymdeithasu a bod yn rhan o'r gymuned leol. Dylid hefyd ystyried yr effaith ar iechyd meddwl unigolion.

6.5 Gall y cynigion toriadau yma gael effaith ar ofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc), teulu a chyfeillion. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod y bobl yma drwy gysylltiad.

6.6 Yr asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod fel y rhai sy'n cael effaith mwyaf ar **bobl anabl** ydi:

| Cyfeirnod | Cynnig Toriadau | Camau y gellir eu cymryd i leihau neu wela effeithiau'r toriadau |
|---|---|---|
| 4, 35, 94 | Gorfodaeth Stryd | Mae'r oblygiadau toriadau a'r dichonoldeb o geisio cyflawni'r gwasanaeth gyda llai o adnoddau yn cael ystyriaeth ar lefel ranbarthol (Gogledd Cymru). |

| | | |
|---|---|---|
| 20, 96 | Teledu Cylch Cyfyng | Peidio â darparu gwasanaeth 24 awr y dydd. Byddai angen ystyriaeth bellach ar sut gellir gwneud hynny. |
| 34, 90 | Cefnogol Derwen | Mae pob ymdrech wedi'i wneud i geisio lliniaru effaith unrhyw doriad yn sgil arbedion blaenorol sydd wedi eu gwneud. Gwnaed ymdrech i drefnu i'r Gwasanaeth Ieuenctid baratoi grwpiau ieuenctid ar gyfer plant anabl, ond nid oes cyllid ganddynt i wneud hyn eu hunain. Mae hyn yn golygu fod Derwen yn talu am yr arweinyddion ac yn gorfod rhoi cefnogaeth 1 i 1 i rai o'r plant yn y clybiau. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid ei hun dan fygythiad toriadau, ac mae'n bosib y daw'r trefniadau i ben yn gyfan gwbl. Nid oes unrhyw fudiad arall o'r trydydd sector yn darparu i ateb yr angen. |
| 37,65,79, 112 | Gweithwyr Maes Gofal Cymdeithasol | Parhau i gymryd camau sy'n cynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i weithio'n fwy hyblyg, yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae'r buddsoddiad sydd yn cael ei wneud i integreiddio gwasanaethau gyda'r Bwrdd Iechyd (Ffordd Gwynedd ac Alltwen) hefyd yn anelu i gyflawni hyn, gyda'r gobaith yn y pendraw y gellir cynnal gwasanaethau ar lefel briodol gyda llai o gapasiti staff. Rhoir cryn bwyslais ar leihau'r gwaith papur a biwrocratiaeth yn gysylltiedig gyda phrosesau gwaith er rhyddhau amser staff llinell flaen gofal ac iechyd i dreulio gyda defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i fonitro effaith y toriadau ar restrau aros am asesiad a gwasanaethau. Rhagdybir y byddai'r toriadau yn digwydd gam wrth gam gyda thystiolaeth o effaith o'r gwaith monitor yn cael ei ystyried wrth baratoi ar gyfer y cam nesaf. |
| 40 | Gorfodaeth Tai | Nid oes camau y gellir eu cymryd i wella effeithiau yn gyfan gwbl, ond bydd modd blaenoriaethu, gan roi pwyslais ar asesu'r tai mwyaf difrifol a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. |
| 43, 99 | Derwen | Mae rôl y gweithiwr cymdeithasol yn un arbenigol a phroffesiynol. Ym maes plant anabl |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar wahân i'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o waith statudol diogelu plant anabl a'r drefn plant mewn gofal, mae'n angenrheidiol fod sgiliau asesu, cwnsela, paratoi cynlluniau gofal, delio â galar ar sawl haen, a sgiliau cyfathrebu amrywiol gan y gweithwyr. Nid oes unrhyw wasanaeth ar gael sy'n mynd i ymdrin â'r ystod yma o anghenion. Bydd achosion yn cael eu cau ac fe fydd yn ofynnol i greu rhestrau aros. |
| 50, 104 | Grantiau i bobl anabl ac addasiadau | Cydweithio gyda gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor er mwyn gweinyddu cynlluniau benthyciadau llog isel. |
| 51, 111 | Toiledau Cyhoeddus | Cadw rhan o'r gyllideb ar gyfer ôl-ofalaeth yr adeiladau a datblygu trefn o ariannu busnesau lleol i gynnig defnydd o'u cyfleusterau ar gyfer y cyhoedd. |
| 62, 88, 106, 118 | Canolfannau Hamdden | Cau llai o ganolfannau neu drosglwyddo rheolaeth y canolfannau i ddarparwr arall. |
| 46, 83 | Lonydd Glas | Gellir trosglwyddo'r Lonydd Glas a'r Gwarchodfeydd Natur i gorff allanol fel Cyngor Cymuned neu Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. |
| C12 | Technoleg Gwybodaeth | Nid oes camau y gellir eu cymryd i wella'r effeithiau wedi'u cyflwyno. |
| 29, 38, 63, 70 | Glanhau Strydoedd | Nid oes camau y gellir eu cymryd i wella'r effeithiau wedi'u cyflwyno. |

## 7.0 Oedran

7.1 Mae nifer o'r toriadau'n debygol o gael effaith ar bobl ifanc a phobl hŷn.

7.2 Mae'r sylwadau ar hygyrchedd a diogelwch yr amgylchedd a nodwyd dan anabledd uchod yn gallu bod yr un mor wir i bobl hŷn hefyd.

7.3 Mae llawer o'r toriadau'n ymwneud â chyfleoedd i gadw'n ffit, yn ffurfiol neu'n anffurfiol (o wersi yn y canolfannau hamdden i gerdded yn y wlad) sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a phobl hŷn. Maent yn gyfleoedd pwysig o safbwynt sefydlu ymarferion da o'r cychwyn a chynnal ffitrwydd, iechyd meddwl ac annibyniaeth wrth heneiddio.

7.4 Yn ogystal, mae nifer o'r cynigion yn cael effaith ar gyfleoedd i hamddena a chymdeithasu e.e. neuaddau, llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid, grantiau i fudiadau. Mae pobl ifanc a phobl hŷn wedi dweud wrthym fod y rhain yn bethau pwysig iddynt hwy.

7.5 Fel gydag anabledd, rhaid cofio fod rhai o'r cynigion yn effeithio ar wasanaethau i blant, pobl ifanc a phobl hŷn yn benodol e.e. ym maes gofal a chlybiau ieuenctid.

7.6 Yn yr un modd, rhaid ystyried yr effaith gaiff colli hyder a cholli annibyniaeth ar ofalwyr a theuluoedd pobl hŷn yn ogystal.

7.7 Yr asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod fel y rhai sy'n cael effaith mwyaf ar **bobl hŷn** ac ar **blant a phobl ifanc** ydi:

| Cyfeirnod | Cynnig Toriadau | Camau y gellir eu cymryd i leihau neu wella effeithiau'r toriadau |
|---|---|---|
| 24 | Celfyddydau Cymunedol | Adnabod darparwyr posib eraill y gellid cydweithio â hwy trwy bartneriaeth Gwynedd Creadigol neu'r grantiau strategol ar gyfer rhai elfennau o waith y Gwasanaeth. |
| 62, 88, 106, 118 | Canolfannau Hamdden | Cau llai o ganolfannau neu drosglwyddo rheolaeth y canolfannau i ddarparwr arall. |
| 20, 96 | Teledu Cylch Cyfyng | Peidio â darparu gwasanaeth 24 awr y dydd. Byddai angen ystyriaeth bellach ar sut gellir gwneud hynny. |
| 40 | Gorfodaeth Tai | Nid oes camau y gellir eu cymryd i wella effeithiau yn gyfan gwbl, ond bydd modd blaenoriaethu, gan roi pwyslais ar asesu tai mwyaf difrifol a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. |
| 15, 39, 55, 76, 82, 98, 100, 107, 116 | Llyfrgelloedd | Dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth, ymuno gyda gwasanaethau eraill. |
| 60, 84, 110 | Cludiant Cyhoeddus | Sefydlu cynllun cludiant cymunedol mewn ardaloedd penodol, a rhoi cymhorthdal i gwmnïau tacsis i weithredu rhai siwrneiau. |

7.8 Yr asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod fel y rhai sy'n cael effaith mwyaf ar **bobl hŷn** yn benodol ydi:

| Cyfeirnod | Cynnig Toriadau | Camau y gellir eu cymryd i leihau neu wella effeithiau'r toriadau |
|---|---|---|
| 4, 35, 94 | Gorfodaeth Stryd | Mae'r oblygiadau toriadau a'r dichonoldeb o geisio cyflawni'r gwasanaeth gyda llai o adnoddau yn cael ystyriaeth ar lefel ranbarthol (Gogledd Cymru). |
| 37,65,79, 112 | Gweithwyr Maes Gofal Cymdeithasol | Parhau i gymryd camau sy'n cynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i weithio'n fwy hyblyg, |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae'r buddsoddiad sydd yn cael ei wneud i integreiddio gwasanaethau gyda'r Bwrdd Iechyd (Ffordd Gwynedd ac Alltwen) hefyd yn anelu i gyflawni hyn, gyda'r gobaith yn y pendraw y gellir cynnal gwasanaethau ar lefel briodol gyda llai o gapasiti staff. Rhoir cryn bwyslais ar leihau'r gwaith papur a biwrocratiaeth yn gysylltiedig gyda phrosesau gwaith er rhyddhau amser staff llinell flaen gofal ac iechyd i dreulio gyda defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i fonitro effaith y toriadau ar restrau aros am asesiad a gwasanaethau. Rhagdybir y byddai'r toriadau yn digwydd gam wrth gam gyda thystiolaeth o effaith o'r gwaith monitor yn cael ei ystyried wrth baratoi ar gyfer y cam nesaf. |
| 44 | Byw'n Iach | Canolbwyntio ar rai meysydd sydd yn cael y mwyaf o effaith ar iechyd, h.y. tybaco a gordewdra. |
| 51, 111 | Toiledau Cyhoeddus | Cadw rhan o'r gyllideb ar gyfer ôl-ofalaeth yr adeiladau a datblygu trefn o ariannu busnesau lleol i gynnig defnydd o'u cyfleusterau ar gyfer y cyhoedd. |
| 29, 38, 63, 70 | Glanhau Strydoedd | Nid oes camau y gellir eu cymryd i wella'r effeithiau wedi'u cyflwyno. |

7.9 Yr asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod fel y rhai sy'n cael effaith mwyaf ar **blant a phobl ifanc** yn benodol ydi:

| Cyfeirnod | Cynnig Toriadau | Camau y gellir eu cymryd i leihau neu wella effeithiau'r toriadau |
|---|---|---|
| 19, 86 | Brecwast am Ddim | Darparu'r elfen gwarchod plant am ddim i ddisgyblion sydd â hawl i ginio am ddim. |
| 33 | Cynyddu pris cinio ysgolion cynradd | Lleihau'r cynnydd arfaethedig ym mhris y cinio. |
| 31, 52, 74, 89, 103 | Gwasanaeth Ieuenctid | Mae'r camau y gellir eu cymryd yn ddibynnol ar gyfradd y toriad ar glybiau ieuenctid ac yn ddibynnol ar brif grantiau clybiau ieuenctid yn parhau. Os bydd y toriad yn gymharol fach a bod prif grantiau ieuenctid yn parhau, mae posibilrwydd bydd mudiadau yn gallu cydweithio mewn rhai o'r prif ardaloedd, er |

| | | |
|---|---|---|
| | | mwyn gweithio'n fwy effeithlon. |
| 34, 90 | Cefnogol Derwen | Mae pob ymdrech wedi'i wneud i geisio lliniaru effaith unrhyw doriad yn sgil arbedion blaenorol sydd wedi eu gwneud. Gwnaed ymdrech i drefnu i'r Gwasanaeth Ieuenctid baratoi grwpiau ieuenctid ar gyfer plant anabl, ond nid oes cyllid ganddynt i wneud hyn eu hunain. Mae hyn yn golygu fod Derwen yn talu am yr arweinyddion ac yn gorfod rhoi cefnogaeth 1 i 1 i rai o'r plant yn y clybiau. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid ei hun dan fygythiad toriadau, ac mae'n bosib y daw'r trefniadau i ben yn gyfan gwbl. Nid oes unrhyw fudiad arall o'r trydydd sector yn darparu i ateb yr angen. |
| 43, 99 | Derwen | Mae rôl y gweithiwr cymdeithasol yn un arbenigol a phroffesiynol. Ym maes plant anabl ar wahân i'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o waith statudol diogelu plant anabl a'r drefn plant mewn gofal, mae'n angenrheidiol fod sgiliau asesu, cwnsela, paratoi cynlluniau gofal, delio â galar ar sawl haen, a sgiliau cyfathrebu amrywiol gan y gweithwyr. Nid oes unrhyw wasanaeth ar gael sy'n mynd i ymdrin â'r ystod yma o anghenion. Bydd achosion yn cael eu cau ac fe fydd yn ofynnol i greu rhestrau aros. |
| 52 | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Gallai rhan o'r gwaith atal gael ei gwblhau gan wasanaethau eraill fel y Gwasanaeth Ieuenctid neu yn y sector preifat, ond mae llawer yn sylweddoli bod y llwyddiant yn cael ei gyflwyno o sail amlasiantaethol. Rhaid ystyried hefyd bod y Gwasanaeth Ieuenctid o dan fygythiad. |
| 54 | Grantiau Ieuenctid | Parhau i geisio codi arian drwy gynnal gweithgareddau, a chwilio am ffynonellau arall i gynnal y mudiadau. Mae'r cynnig toriad yma'n effeithio ar gynnig toriad (30) Gwasanaeth Ieuenctid. |
| 68 | Gwasanaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed | Nid oes unrhyw gamau y gellir eu cymryd o fewn y gwasanaeth i liniaru'r effeithiau. Byddai angen cynyddu'r gefnogaeth mewn asiantaethau eraill e.e. Gyrfa Cymru ar gyfer hybu gwaith, hyfforddiant ac addysg. Byddai angen cynyddu'r gefnogaeth mewn sefydliadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | addysg bellach, rhagor o waith cefnogi tenantiaeth, a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn ag atal digartrefedd. Rhaid cofio mai ar y Cyngor mae'r cyfrifoldeb statudol i sicrhau cynllun addas a'i weithredu. |
| 87 | Gweithwyr Cymdeithasol Plant | Mae rôl y gweithiwr cymdeithasol yn un arbenigol a phroffesiynol. Yn o gystal â chael dealltwriaeth a gwybodaeth o waith statudol diogelu plant, mae'n angenrheidiol fod sgiliau asesu, cwnsela, paratoi cynlluniau gofal, a sgiliau cyfathrebu amrywiol gan y gweithwyr. Nid oes unrhyw wasanaeth ar gael sy'n mynd i ymdrin â'r ystod yma o anghenion. Mae'n bosib y bydd angen creu rhestrau aros, ond mae hyn yn ei hun yn codi risgiau uchel i'r Cyngor o ran diogelwch plant. |

## 8.0 Yr iaith Gymraeg

8.1 Rhaid cofio fod rhai toriadau gwasanaeth yn dod â risg na fydd y ddarpariaeth ar gael i'r un graddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn colli dylanwad os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fudiadau eraill. Gall hyn rwystro Gwynedd fod yn gadarnle i'r iaith, a rhwystro'r iaith fod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir.

8.2 Mae pobl ifanc wedi dweud yn glir y byddai torri'r Gwasanaeth Ieuenctid a grantiau i fudiadau ieuenctid fel Cymdeithas y Ffermwyr Ifanc yn cael effaith mawr ar eu siawns i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol.

8.3 Gallai nifer o'r toriadau gael effaith ar economi'r ardal a gallai hynny yn ei dro effeithio ar y nifer o swyddi sydd ar gael i bobl ifanc. Gall hyn olygu bod yn rhaid iddynt adael y sir i chwilio am waith a gallai hynny gael effaith ar ffyniant yr iaith Gymraeg.

8.4 Yr asesiadau effaith cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod fel y rhai sy'n cael effaith mwyaf ar yr **iaith Gymraeg** ydi:

| Cyfeirnod | Cynnig Toriadau | Camau y gellir eu cymryd i leihau neu wella effeithiau'r toriadau |
|---|---|---|
| 3, 57 | Grantiau Strategol i'r Celfyddydau | Adnabod darparwyr posib eraill y gellid cydweithio â hwy trwy bartneriaeth Gwynedd Creadigol. |
| 7, 69 | Adfywio Cymunedol | Datblygu teclynnau fel adnoddau a gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill megis Mantell Gwynedd. |
| 24 | Celfyddydau Cymunedol | Adnabod darparwyr posib eraill y gellid |

| | | |
|---|---|---|
| | | cydweithio â hwy trwy bartneriaeth Gwynedd Creadigol. |
| 15, 39, 55, 76, 82, 98, 100, 107, 116 | Llyfrgelloedd | Dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth, ymuno gyda gwasanaethau eraill. |
| 56 | Twristiaeth a Marchnata | Adnabod darparwyr posib eraill y gellid cydweithio â hwy ar gyfer rhai elfennau o waith y gwasanaeth. |
| 59 | Neuadd Dwyfor | Adnabod darparwyr posib eraill y gellid cydweithio â hwy e.e. trwy bartneriaeth Gwynedd Creadigol. |
| 62, 88, 106, 118 | Canolfannau Hamdden | Cau llai o ganolfannau neu drosglwyddo rheolaeth y canolfannau i ddarparwr arall. |

## 9.0 Nodweddion eraill

9.1 Er ein bod wedi adnabod mai ar y nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig uchod y bydd yr effaith mwyaf, bydd effaith ar y nodweddion eraill hefyd.

9.2 Mae nifer o'r cynigion toriadau yn cael effeithiau penodol ar ddynion neu ar ferched e.e. **(65) Trais yn y cartref**, **(63) Digartrefedd** (dynion sengl a theuluoedd mamau un rhiant), **(41) Byw'n Iach**.

9.3 Ym maes diogelwch personol a throsedd casineb mae'r effaith mwyaf ar nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd a grwpiau lleiafrif ethnig. Gallai hefyd gael effaith ar bobl sy'n perthyn i rai crefyddau. Mae tystiolaeth anecdotal fod y grwpiau hyn ynghyd â rhai merched a phobl hŷn, yn fwy tebygol o fod yn ofnus wrth fynd allan a gallai dirywiad yn yr amgylchedd gael effaith arnynt hwy.

9.4 Yn ogystal, o dan hil, ceir effaith ar y diwylliant Cymreig o gau nifer o leoliadau a gwasanaethau. Gall cynnig toriad **(4) Gorfodaeth Stryd** olygu diffyg gweithredu'r Polisi Graffiti a gorfodi (Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000) a fydd yn golygu nad yw'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i'r angen i ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon.

9.5 Adnabuwyd yn yr asesiadau effaith cydraddoldeb fod hygyrchedd yn bwysig i deuluoedd ifanc. Mae hefyd nifer o wasanaethau e.e. digartrefedd a'r gwasanaeth plant yn gweithio gyda merched beichiog.

## 10.0 Camau Nesaf

10.1 Gellir gweld yr holl asesiadau effaith cydraddoldeb yn www.gwynedd.llyw.cymru/HerGwynedd-PapurCefndirol4-AsesiadauCydraddoldeb a gellir cysylltu ag asesiadau effaith cydraddoldeb penodol drwy'r adroddiad hwn.

10.2 Mae'n hanfodol fod aelodau yn edrych ar yr ystod lawn o asesiadau effaith cydraddoldeb.